




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



# Sgrinio'r boblogaeth ar gyfer retinopathi diabetig heb mydriasis

Adolygiad Cwmpasu

Fersiwn 1.0

## **Manylion yr Adroddiad Adolygu Tystiolaeth**

**Teitl:** Sgrinio'r boblogaeth ar gyfer retinopathi diabetig heb mydriasis: adolygiad cwmpasu

**Awduron:** Amy Hookway, Toby Ayres, Emma Richards; Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Ymwneud gan sefydliadau eraill:** Adolygiad cydweithredol mewnol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yw hwn rhwng y Gwasanaeth Tystiolaeth a'r is-adran Gwasanaethau Sgrinio

**Sefydliad comisiynu:** Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

**Dyddiad:** Ebrill 2026

**Fersiwn:** 1.0

**Cyhoeddi/Dosbarthu:** I'w gyhoeddi trwy wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i ddosbarthu i randdeiliaid allweddol yn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru a Llywodraeth Cymru

**Manylion protocol:** Ar gael gan y Gwasanaeth Tystiolaeth ar gais

## Cynnwys

|   |    |
|---|----|
| 1. Crynodeb gweithredol.....  | 5  |
| 2. Cefndir a diben .....  | 7  |
| 3. Dulliau .....  | 8  |
| 3.1. Meini prawf cymhwysedd.....  | 9  |
| 3.2. Dulliau chwilio.....   | 10 |
| 3.3. Rheoli cofnodion yr astudiaeth .....   | 11 |
| 3.4. Y broses ddethol.....  | 11 |
| 3.5. Arfarniad beirniadol.....  | 12 |
| 3.6. Echdynnu data .....  | 12 |
| 3.7. Cyfuno.....  | 12 |
| 4. Canlyniadau.....   | 12 |
| 4.1. Dethol Astudiaethau.....   | 12 |
| 4.2. Cwestiwn un: Mewn pobl sydd â diabetes sy'n destun sgrinio retinol, a all delweddu retinol anfydriatig gan ddefnyddio Topcon NW500 neu ddyfeisiau tebyg ddarparu delweddu o ansawdd digon da i raddio retinopathi diabetig heb fod angen ymledu cannyll y llygad yn ffarmacolegol? ..... | 14 |
| 4.2.1 Nodweddion yr astudiaethau a gynhwyswyd:.....   | 14 |
| 4.2.2 Ansawdd yr astudiaethau a gynhwyswyd .....  | 15 |
| 4.2.3 Canfyddiadau.....   | 16 |
| 4.3. Cwestiwn dau: Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â delweddu retinol anfydriatig aflwyddiannus neu o ansawdd gwael yn y rhai sy'n destun sgrinio retinopathi diabetig? .....  | 21 |
| 4.3.1 Nodweddion yr astudiaethau a gynhwyswyd .....   | 21 |
| 4.3.2 Ansawdd yr astudiaethau a gynhwyswyd .....  | 24 |
| 4.3.3 Canfyddiadau.....   | 25 |
| 5. Trafodaeth.....  | 30 |
| 5.1. Crynodeb o'r dystiolaeth .....   | 30 |
| 5.2. Cryfderau a chyfyngiadau.....  | 33 |
| 6. Casgliadau .....   | 34 |

|      |  |    |
|------|--|----|
| 7.   | Goblygiadau i ymarfer, polisi, ac ymchwil yn y dyfodol.....  | 35 |
| 8.   | Cyfeiriadau .....  | 35 |
| 9.   | Gwybodaeth ychwanegol.....   | 38 |
| 9.1. | Buddiannau sy'n anghyson â'i gilydd .....  | 38 |
|      | Atodiad A: Strategaeth Chwilio.....  | 39 |
|      | Atodiad B: Meini prawf cynnwys/eithrio dyfeisiau camera tebyg (a ddefnyddiwyd o sgrinio testun llawn) .. | 42 |
|      | Atodiad 2: Tabl Echdynnu Data .....  | 43 |

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cefndir:

Mae retinopathi diabetig yn gymhlethdod cyffredin i bobl sydd â diabetes. Gan fod lefelau diabetes yn cynyddu yng Nghymru, mae cyffredinrwydd retinopathi diabetig ac afiachedd cysylltiedig yn debygol o gynyddu dros gyfnod hefyd, gan osod baich ychwanegol ar wasanaethau llygaid ysbytai. Nod Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) yw canfod retinopathi diabetig cyn colli golwg, gan hwyluso atgyfeirio i wasanaethau llygaid ysbytai i gael triniaeth i leihau risg colli golwg. Ar hyn o bryd, mae cleifion sy'n mynd i wasanaeth DESW yn cael triniaeth sy'n ymledu kannwyll y llygad yn ffarmacolegol ac yna'n tynnu delweddau ffwndws y retina gan ddefnyddio camerâu arbenigol i ganfod a yw retinopathi diabetig yn bresennol, a pha mor ddifrifol. Mae ymledu kannwyll y llygad yn ffarmacolegol yn gwella eglurder delweddau er mwyn helpu i ganfod retinopathi diabetig. Fodd bynnag, mae'n gallu pylu'r golwg dros dro, sy'n golygu bod gyrru yn annoeth. Fe allai'r sgil-ffaith hon gyfrannu at orbryder ynglŷn â'r broses sgrinio ac fe'i nodwyd fel rhwystr posibl rhag mynychu (Strutton et al., 2016; GIG Lloegr, 2025b).

Lluniwyd yr adolygiad cwmpasu hwn i lywio'r gwerthusiad a gynlluniwyd o gamerâu ffwndws anfydriatig Topcon NW500 o fewn rhaglen DESW. Mae'r gwasanaeth wedi prynu'r camerâu hyn ac maen nhw'n defnyddio nodweddion adlewyrchol y retina i gipio delweddau ffwndws y retina heb fod angen ymledu kannwyll y llygad. Nod yr adolygiad oedd asesu p'un a all delweddu ffwndws anfydriatig gan ddefnyddio Topcon NW500 neu ddyfeisiau tebyg ddarparu delweddau o ansawdd digon da i raddio retinopathi diabetig heb fod angen ymledu kannwyll y llygad yn ffarmacolegol, ac amlygu grwpiau y mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gallent fod yn fwy tebygol o gynhyrchu delweddau o ansawdd gwael, ac felly efallai y bydd angen ymledu kannwyll y llygad o hyd yn ystod sgrinio. Diben hyn yw sicrhau bod ansawdd delweddau'n cael ei werthuso'n ddigonol yn y grwpiau hyn wrth werthuso'r camerâu anfydriatig Topcon NW500 i'w defnyddio yng Nghymru.

## Nodau a dull:

Nod yr adolygiad oedd archwilio:

- 1) Mewn pobl sydd â diabetes sy'n destun sgrinio retinol, a all delweddu retinol anfydriatig gan ddefnyddio Topcon NW500 neu ddyfeisiau tebyg ddarparu delweddau o ansawdd digon da i raddio retinopathi diabetig heb fod angen ymledu kannwyll y llygad yn ffarmacolegol?
- 2) Pa ffactorau (e.e. oedran, cydafiacheddau ociwlar, ethnigrwydd, amgylcheddau) sy'n gysylltiedig â delweddau retinol anfydriatig aflwyddiannus neu o ansawdd gwael yn y rhai sy'n destun sgrinio retinopathi diabetig?

Cynhaliwyd chwiliadau cynhwysfawr o gronfeydd data llyfryddiaethol a llenyddiaeth lwyd i amlygu astudiaethau a gyhoeddwyd ers 2015. Sgriniwyd yr astudiaethau gan ddau adolygwr yn erbyn meini

prawf cynnwys a bennwyd ymlaen llaw, ac arfarnwyd ansawdd methodolegol yr astudiaethau a gynhwyswyd gan ddefnyddio rhestrau gwirio penodol yn ymwneud â dyluniad astudiaethau.

### Canfyddiadau allweddol:

- Roedd pymtheg astudiaeth yn bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys yn yr adolygiad; roedd wyth yn mynd i'r afael â chywirdeb diagnostig ac roedd naw yn archwilio ffactorau sy'n gysylltiedig ag ansawdd delweddau.
- Nid yw unrhyw astudiaethau wedi gwerthuso Topcon NW500 yn benodol, ac ni chynhaliwyd yr un ohonynt yng Nghymru na'r Deyrnas Unedig, sy'n cyfyngu ar berthnasedd uniongyrchol y canfyddiadau i gyd-destun Cymru.
- Ar draws y sylfaen dystiolaeth, roedd cywirdeb diagnostig camerâu ffwndws 45° anfydriatig yn amrywio'n fawr. Dim ond un astudiaeth a gyrhaeddodd drothwyon argymelledig Cymdeithas Ddiabetig Prydain ar gyfer sensitifrwydd ( $\geq 80\%$ ) a phenodolrwydd ( $\geq 95\%$ ), er bod pryderon methodolegol yn cyfyngu ar hyder yn y canlyniad hwn.
- Mae heterogenedd sylweddol o ran nodau a dyluniadau astudiaethau, modelau camerâu, protocolau delweddu, a safonau cyfeirio yn cyfyngu ar y gallu i gymharu ar draws astudiaethau ac yn cyfyngu ymhellach ar y gallu i gyffredinoli'r canfyddiadau.
- Roedd y dystiolaeth ynglŷn â ffactorau sy'n gysylltiedig â delweddau na ellid eu graddio yn gyfyngedig. Henaint oedd y ffactor cysylltiedig mwyaf cyson, wrth i ddwy astudiaeth adrodd am debygolrwydd sylweddol uwch o ddelweddau na ellid eu graddio mewn poblogaethau hŷn.
- Roedd canfyddiadau astudiaethau unigol hefyd yn awgrymu cysylltiadau â chataractau, cywerthedd sfferig uchel, llai o graffter golwg, gwrywod, lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn), ysmegu, a chyfradd uchel o brosesu cleifion.
- Roedd pryderon amlwg ynglŷn ag ansawdd y rhan fwyaf o'r astudiaethau a gynhwyswyd, gan gynnwys adrodd anghyson a threfniadau cuddio aneglur. Yn ogystal, roedd gan lawer o'r astudiaethau nodau gwahanol i'r adolygiad hwn, a oedd yn effeithio ar berthnasedd a chyflawnder y canlyniadau a adroddwyd.

### Casgliad ac argymhellion:

Gan nad oes dystiolaeth ynglŷn â chywirdeb diagnostig Topcon NW500, mae'n amlwg bod cyfiawnhad i gynnal gwerthusiad lleol cadarn o'r camera penodol hwn. Mae'r canfyddiadau ynglŷn â chywirdeb diagnostig camerâu tebyg yn pwysleisio hyn hefyd, gan fod sensitifrwydd a phenodolrwydd gwahanol gamerâu yn amrywio'n fawr, sy'n cyfyngu ar y gallu i gyffredinoli.

Er yr amlygwyd sawl nodwedd a oedd yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o ddelweddau na ellid eu graddio, roedd y cysylltiadau hyn yn ymwneud ag astudiaethau unigol yn gyffredinol, felly dylid bod yn ofalus wrth gymhwyso'r canfyddiadau hyn i gyd-destun sgrinio retinopathi diabetig yng Nghymru.

Er hynny, fe allent fod yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer llywio pa newidynnau i ganolbwyntio arnynt yn y gwerthusiad o Topcon NW500 sydd i ddod yng Nghymru. Fe allai casglu nodweddion o'r fath, neu ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli os yw ar gael i weithwyr sgrinio proffesiynol o gofnodion cleifion, helpu i sicrhau bod grwpiau'n cael eu samplu'n ddigonol yn y gwerthusiad. Byddai hyn yn helpu i amlygu pa grwpiau o gleifion a allai elwa o ddull mydriasis fesul cam yng Nghymru, gyda'r nod o wella effeithlonrwydd y gwasanaeth a chyfleustra i gleifion yn y pen draw trwy amlygu'r rhai sy'n gallu osgoi'r angen am ymledu kannwyll y llygad yn ffarmacolegol.

## 2. Cefndir a diben

### Retinopathi diabetig

Mae retinopathi diabetig yn gymhlethdod microfasgwlaidd cyffredin sy'n deillio o ddiabetes (Shayam M, et al. 2025) ac mae'n un o'r clefydau retinol cronig mwyaf cyffredin yn y byd. O ystyried y disgwylir i'w gyffredinrwydd byd-eang gynyddu (amcangyfrifir 130 miliwn erbyn 2030 a 160 miliwn erbyn 2045) (Teo Z, et al. 2021) a'i fod eisoes yn un o brif achosion dallineb, yn enwedig ymhlith oedolion oedran gweithio, mae'n her iechyd cyhoeddus byd-eang sylweddol.

Yng nghyd-destun Cymru, yn 2021/22, amcangyfrifwyd bod gan 212,716 o oedolion (17 oed neu hŷn) ddiabetes (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023a). Yn 2022/23, canfuwyd retinopathi diabetig mewn 14,424 (22.68%) o'r rhai a sgriniwyd, ac roedd gan 4.3% retinopathi/macwlopathi sy'n bygwth golwg (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023b). Erbyn 2035/36, amcangyfrifir y bydd gan un o bob 11 o oedolion (17 oed neu hŷn) yng Nghymru ddiabetes, sy'n gyfystyr â 260,000 o bobl (cynnydd 22%), felly fe allai hyn achosi cynnydd sylweddol yng nghyffredinrwydd retinopathi diabetig, afiachedd cysylltiedig, a'r baich ar wasanaethau sgrinio a gwasanaethau llygaid ysbytai.

### Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru

Mae Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW) wedi bod ar waith ers 2003 (fel Gwasanaeth Sgrinio Retinopathi Diabetig Cymru i ddechrau) a'i nod yw canfod retinopathi diabetig cyn colli golwg, gan felly hwyluso atgyfeirio i wasanaethau llygaid ysbytai er mwyn ystyried triniaeth i leihau'r risg hon.

Yn rhan o'i ymrwymiad parhaus i ddarparu gwasanaeth sgrinio rhagorol i boblogaeth Cymru, mae DESW yn adolygu'r prosesau a'r offer y mae'n eu defnyddio yn rheolaidd. Yn rhan o hyn, mae DESW wedi buddsoddi'n ddiweddar mewn camerâu retinol anfydriatig Topcon o'r radd flaenaf (NW500). Mae'r camera hwn (camera ffwndws anfydriatig) yn defnyddio nodweddion adlewyrchol y retina, ac felly dywedir ei fod yn gallu cipio delweddau ffwndws lliw heb fod angen ymledu kannwyll y llygad. Mae'n gallu darparu delweddau 50-gradd i glinigwyr ar draws y tri safle sefydlog traddodiadol (disg, canol, a macwla).

### Arferion sgrinio mydriatig presennol

Yng Nghymru ar hyn o bryd, mae retinopathi diabetig yn cael ei sgrinio yn yr holl gyfranogwyr trwy ymledu a pharlysu kannwyll y llygad gan ddefnyddio diferion llygaid tropicamide 1%, oni bai bod gwrtharwydd (e.e. o ganlyniad i alergedd, anaf i'r llygad, neu haint). Ystyrir bod y dull hwn yn angenrheidiol i gael delweddau digon eglur i'w graddio. Fodd bynnag, fe allai'r defnydd o ddiferion llygaid gyfrannu at orbryder ynglŷn â'r broses sgrinio ac fe'i nodwyd fel rhwystr posibl rhag mynychu (Strutton R, et al. 2016). Gall diferion llygaid tropicamide 1% achosi sgil-effeithiau aciwt, gan gynnwys llid ac anghysur i'r llygad, ac arwain at olwg aneglur a allai bara am sawl awr. Fel y cyfryw, dywedir wrth gyfranogwyr efallai na fyddant yn gallu gyrru neu wneud tasgau manwl am hyd at 4 awr neu nes i'w golwg glirio ar ôl cael diferion llygaid. Gall adweithiau niweidiol llai cyffredin ddigwydd ar ôl cael diferion llygaid tropicamide 1%, fel achosi glawcoma ongl gaeedig aciwt a chymhlethdodau o ganlyniad i amsugno systemig.

Fodd bynnag, mae protocolau rhoi tropicamide yn amrywio ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig. Mae'r Alban yn cynnig mydriasis fesul cam gan ddefnyddio delweddu anfydriatig un maes 45-gradd, a rhoddir tropicamide dim ond os bydd y sgriniwr yn penderfynu bod y ddelwedd hon yn annigonol. O'r rhai a sgriniwyd yn yr Alban (yn amrywio o 8.9% o bobl 35-44 oed i 62% o bobl 85 oed a hŷn), adroddwyd bod angen i 30% ohonynt gael tropicamide i ymledu kannwyll y llygad (Styles et al, 2020). Mae Gogledd Iwerddon hefyd yn cynnig dull mydriasis fesul cam i bobl iau na 50 oed ac ond yn cynnig tropicamide fel mater o drefn i bobl 50 oed a hŷn. Mae'r protocolau tropicamide yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi'u seilio ar brofiad clinigol ac addasiadau i'w modelau cyflawni gweithredol, fel defnyddio graddiwr awtomataidd yn yr Alban. Yng Nghymru, mae'r rhaglen sgrinio llygaid diabetig wedi dilyn yr arweiniad cyhoeddus ar gyfer rhaglen sgrinio llygaid diabetig (DES) y GIG (GIG Lloegr 2023). Mae hyn yn cyd-fynd â'r arweiniad clinigol ar ddefnyddio diferion mydriatig ar gyfer pob grŵp o'r boblogaeth. Gan y bydd dull mydriatig fesul cam yn addasiad i'r llwybr sefydledig yng Nghymru a Lloegr, bydd angen i unrhyw newid gael ei seilio ar dystiolaeth gadarn o ddiogelwch ac effeithiolrwydd.

Ar hyn o bryd, bwriedir i werthusiad o'r camerâu Topcon NW500 yng Nghymru ddechrau ym mis Hydref 2025. Nod yr adolygiad cwmpasu hwn yw llywio dyluniad y gwerthusiad hwnnw, trwy archwilio cywirdeb diagnostig camerâu anfydriatig tebyg, a thrwy amlygu grwpiau y mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y gallent fod yn fwy tebygol o gynhyrchu delweddau o ansawdd gwael, ac felly efallai y bydd angen ymledu kannwyll y llygad o hyd yn ystod sgrinio. Diben hyn yw sicrhau bod ansawdd delweddau'n cael ei werthuso'n ddigonol yn y grwpiau hyn wrth werthuso'r camerâu anfydriatig Topcon NW500 i'w defnyddio yng Nghymru.

### 3. Dulliau

Nod yr adolygiad yw archwilio:

- 3) Mewn pobl sydd â diabetes sy'n destun sgrinio retinol, a all delweddu retinol anfydriatig gan ddefnyddio Topcon NW500 neu ddyfeisiau tebyg ddarparu delweddau o ansawdd digon da i raddio retinopathi diabetig heb fod angen ymledu kannwyll y llygad yn ffarmacolegol?

- 4) Pa ffactorau (e.e. oedran, cydafiacheddau ociwlar, ethnigrwydd, amgylcheddau) sy'n gysylltiedig â delweddau retinol anfydriatig aflwyddiannus neu o ansawdd gwael yn y rhai sy'n destun sgrinio retinopathi diabetig?

**3.1. Meini prawf cymhwysedd** Cynhwyswyd astudiaethau lle'r oedd y boblogaeth yn bobl dros 12 oed â diabetes math 1 neu fath 2, a lle y tynnwyd delweddau retinopathi diabetig gan ddefnyddio camera anfydriatig, heb ymledu cannwyll y llygad yn ffarmacolegol (mydriasis). Cynhwyswyd astudiaethau o unrhyw ddyluniad, ni waeth p'un a oedd yr astudiaeth yn defnyddio grŵp cymharu ai peidio. Cynhwyswyd canlyniadau cywirdeb diagnostig i helpu i ateb cwestiwn un, ynghyd â chyfraddau delweddau na ellid eu graddio, a ffactorau a amlygwyd a allai effeithio ar ansawdd delweddau, i helpu i ateb cwestiwn dau. Ceir tabl cynnwys/eithrio manylach isod (Tabl 1).

Tabl 1: Meini prawf cynnwys/eithrio

|         | Y boblogaeth gleifion                                      | Ymyrraeth   | Cymharydd   | Canlyniad  | Y math o astudiaeth  |
|---------|--|---|---|--|--|
| Cynnwys | Unigolion $\geq 12$ oed sydd â diabetes math 1 neu fath 2. | Delweddau retinopathi diabetig a dynnwyd gan ddefnyddio camera anfydriatig, heb fydriasis.*<br><br>Delweddau retinopathi diabetig a dynnwyd gan ddefnyddio mydriasis fesul cam, gyda rhywfaint o ddelweddu anfydriatig. | Delweddau retinopathi diabetig a dynnwyd gan ddefnyddio camera mydriatig neu anfydriatig, ond gan ymledu cannwyll y llygad yn ffarmacolegol (mydriasis).<br><br>Delweddau a dynnwyd gyda chyffuriau gwrthfysgarinig e.e. tropicamide, phenylephrine, (cyclopentolate neu atropine, ond nid yw'r rhain fel arfer yn cael eu defnyddio wrth sgrinio). | Canlyniadau cywirdeb diagnostig o'r camerâu Topcon NW500 a chamerâu retinol anfydriatig eraill tebyg.*<br><br>Canlyniadau graddio retinopathi diabetig delweddu anfydriatig (fel % y delweddau y gellid eu graddio/na ellid eu graddio).<br><br>Ffactorau a allai effeithio ar ansawdd delweddau/y gallu i raddio delweddau. E.e. ffactorau yn | Unrhyw ddyluniad astudiaeth gynradd feintiol, gan gynnwys adolygiadau systematig o astudiaethau perthnasol.<br><br>Wedi'i chyhoeddi yn 2015 ac wedi hynny.<br><br>Wedi'i chyhoeddi yn Saesneg. |

|                |  |   | Dim cymharydd/gofal arferol. | ymwneud â'r cyfranogwyr a ffactorau amgylcheddol. |   |
|----------------|--|---|------------------------------|---|---|
| <b>Eithrio</b> | <p>Cyfranogwyr nad ydynt yn ddiabetig; poblogaethau pediatrig yn unig (&lt;12 oed).</p> <p>Unrhyw un nad yw'n ddiabetig.</p> <p>Astudiaethau ynglŷn â chyfranogwyr sydd â diabetes yn ystod beichiogrwydd.</p> | <p>Astudiaethau sy'n canolbwyntio ar Facwlopathi (os yw wedi'i gyfuno â retinopathi, gellid cynnwys y rhain).</p> <p>Camerâu ffôn clyfar.</p> <p>Systemau diagnostig/ graddio deallusrwydd artiffisial.</p> <p>Camerâu nad ydynt yn debyg i'r Topcon NW500*</p> |                              | Canlyniadau cyffredinrwydd.                       | <p>Adroddiadau achos.</p> <p>Erthyglau safbwynt.</p> <p>Llenyddiaeth eilaidd (heblaw am adolygiadau systematig).</p> <p>Esboniadau / erthyglau golygyddol.</p> <p>Crynodebau cynhadledd.</p> <p>Protocolau.</p> <p>Astudiaethau ansoddol.</p> |

\*Defnyddio camerâu sy'n bodloni ein meini prawf fel bod yn 'debyg' (fel y manylir yn Atodiad B).

### 3.2. Dulliau chwilio

Cynhaliwyd chwiliadau cynhwysfawr o bum cronfa ddata a phedair gwefan (a fanylir yn Atodiad A), gan gynnwys MEDLINE (trwy Ovid), EMBASE (trwy Ovid), CINHAL (trwy EBSCO) a Scopus, yn ystod mis Gorffennaf 2025. Crëwyd llinynnau chwilio a ddefnyddiodd eiriau allweddol a phenawdau pwnc yn ymwneud â'r cysyniadau canlynol:

- Geiriau allweddol a phenawdau pwnc i rychwantu'r boblogaeth e.e.: diabet\*, "retinopathi diabetig"
- Geiriau allweddol a phenawdau pwnc i rychwantu delweddu anfydriatig e.e.: anfydria\*, anymledol\*, heb ymledu

- Geiriau allweddol a phenawdau pwnc i rychwantu mathau o gamerâu e.e.: Topcon, Confocal, Canon, (digidol neu delwedd\* neu ffoto\* neu camera\*) adj3 (retina\* neu ffwndws)

Adolygwyd llinynnau chwilio drafft gan arbenigwr ar wybodaeth, a diweddarwyd y llinyn chwilio terfynol i adlewyrchu rhywfaint o'i adborth, ac adborth a gafwyd gan randdeiliaid yr adolygiad yn Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Cyfyngwyd chwiliadau i'r cyfnod rhwng 2015 a'r presennol, ac i astudiaethau Saesneg yn unig. Dewiswyd 2015 fel terfyn i adlewyrchu datblygiadau diweddar mewn technolegau delweddu camera a sgrinio. Dangosir y llinynnau chwilio terfynol llawn yn Atodiad A.

### 3.3. Rheoli cofnodion yr astudiaeth

Allgludwyd y canlyniadau o bob chwiliad cronfa ddata/gwefan i Rayyan (Ouzzani M, et al. 2016), lle y'u dad-ddyblygwyd yn barod i'w sgrinio. Cafwyd ffeiliau RIS wrth gefn yn ystod pob cam o'r broses sgrinio.

### 3.4. Y broses ddethol

Sgriniwyd teitl a chrynodeb pob cofnod yn annibynnol gan ddau adolygwr gan ddefnyddio Rayyan (Ouzzani M, et al. 2016). Symudwyd y rhai a ddewiswyd gan y ddau adolygwr ymlaen i sgrinio testun llawn. Datryswyd gwrthdaro rhwng yr adolygwyr trwy drafod neu drwy ymgynghori â thrydydd adolygwr.

Roedd y cam sgrinio cychwynnol yn cynnwys amlygu astudiaethau a oedd yn defnyddio unrhyw gamera anfydriatig, ond penderfynwyd yn ystod y broses sgrinio teitlau a chrynodebau bod gormod o astudiaethau perthnasol i allu ymdopi â nhw, a heriwyd p'un a fyddai rhai o'r mathau o gamerâu yn wirioneddol debyg i'r Topcon NW500 a brynwyd i'w werthuso yng Nghymru. Gyda chymorth rhanddeiliaid, mireiniwyd y rhestr o gamerâu i'w cynnwys (a fanylir yn Atodiad B) a diwygiwyd y protocol i adlewyrchu hyn yn barod ar gyfer sgrinio testun llawn.

Ailgriniwyd y cofnodion a gynhwyswyd yn ystod y cam sgrinio teitl a chrynodeb ar lefel testun llawn, yn annibynnol gan ddau adolygwr, a chynhwyswyd y rhai a oedd yn bodloni'r meini prawf newydd eu mireinio yn yr adolygiad. Datryswyd anghytundebau trwy drafod neu drwy ymgynghori â thrydydd adolygwr.

Ar bob cam o'r broses chwilio a sgrinio, cofnodwyd niferoedd astudiaethau (amlygu, cynnwys, eithrio) mewn diagram llif PRISMA (Page M, et al. 2021) a ddangosir yn Ffigur 1.

### 3.5. Arfarniad beirniadol

Cynhaliwyd arfarniad beirniadol o'r astudiaethau a gynhwyswyd gan ddefnyddio rhestr wirio arfarniad critigol briodol gan Sefydliad Joanna Briggs a oedd yn cyfateb i ddyluniad astudiaeth y cyhoeddiadau. Arfarnodd un adolygwr pob astudiaeth, a gwiriwyd cysondeb is-set o'r rhain gan ail adolygwr i amlygu unrhyw broblemau dehongli. Trafodwyd unrhyw anghytundebau ynglŷn ag ansawdd, a ffurfiwyd barn gyffredin.

Crynoir ansawdd astudiaethau yn adrannau 4.2.2 a 4.3.2, ar gyfer cwestiynau 1 a 2, yn ôl eu trefn.

### 3.6. Echdynnu data

Echdynnwyd data o bob astudiaeth a gynhwyswyd i dablau echdynnu data MS Word. Roedd y wybodaeth a echdynnwyd yn cynnwys nod yr astudiaeth, dyluniad, gwlad, dyddiadau/hyd, lleoliad, meini prawf cynnwys poblogaeth, nifer y cyfranogwyr a astudiwyd, pa fodel camera anfydriatig a ddefnyddiwyd, amodau cipio delwedd, pwy gipiodd/graddiodd y delweddau, cymaryddion (os oeddent yn berthnasol), canlyniadau a aseswyd, a chanfyddiadau perthnasol.

Gwiriwyd cysondeb yr holl ddata a echdynnwyd gan ail adolygwr i sicrhau cywirdeb a chyflawnder. Gellir gweld y tablau echdynnu data llawn ar gyfer pob astudiaeth yn Atodiad C.

### 3.7. Cyfuno

Mae'r canfyddiadau perthnasol o'r astudiaethau wedi cael eu crynhoi ar ffurf naratif a'u strwythuro o amgylch y ddau gwestiwn adolygu. Adroddwyd ar ganfyddiadau cywirdeb diagnostig lle y'u disgrifiwyd ar gyfer cwestiwn un, gan gynnwys gwybodaeth am sensitifrwydd a phenodolrwydd camerâu i wneud diagnosis o retinopathi diabetig. Lle y dadansoddwyd ansawdd delweddau, crynhowyd hyn ar gyfer cwestiwn dau; gan gynnwys data am ganrannau'r delweddau y gellid eu graddio o gymharu â'r delweddau na ellid eu graddio ac unrhyw ddadansoddiad o'r rhesymau posibl sy'n effeithio ar ansawdd delweddau. Ni chynhaliwyd metaddadansoddiad oherwydd adolygiad cwmpasu yw hwn a luniwyd i archwilio'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i helpu i lywio gwerthusiad, yn hytrach na darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd.


## 4. Canlyniadau

### 4.1. Dethol Astudiaethau

Amlygodd chwiliadau 716 o astudiaethau (ar ôl dad-ddyblygu) ar gyfer sgrinio teitl a chrynodeb. Eithriwyd 601 o'r rhain yn ystod y cam sgrinio teitl/crynodeb, a symudodd 115 o gofnodion ymlaen i

sgrinio testun llawn. Eithriwyd 100 o'r rhain, gan adael 15 o astudiaethau a oedd yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn yr adolygiad cwmpasu hwn (Ffigur 1). Darparodd chwech o'r rhain wybodaeth ar gyfer cwestiwn un yn unig (Piyasena M, et al. 2018; Hu J, et al. 2019; Bastion M, et al. 2022; Memon M, et al. 2020; Fahadullah M, et al. 2019; Ryan M, et al. 2015), a saith ar gyfer cwestiwn dau yn unig (Banaee T, et al. 2017; Dow E, et al. 2023; O'Halloran R, et al. 2018; Porta M, et al. 2017; Rico-Sergado L, et al. 2016; Rosses A, et al. 2017; Szabo D, et al. 2015), a darparodd ddwy astudiaeth wybodaeth a oedd yn berthnasol i'r ddau gwestiwn (Toy B, et al. 2016; Lee J, et al. 2019). Ni amlygwyd unrhyw astudiaethau a edrychodd yn benodol ar y Topcon NW500 a brynwyd yng Nghymru. Archwiliodd yr astudiaethau a amlygwyd gamerâu anfydriatig ar restr camerâu cymeradwy Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y Deyrnas Unedig (UK NSC), ym mis Awst 2025 (GIG Lloegr, 2025), neu fodlau delweddu 45° anfydriatig tebyg.

Ffigur 1: Llif astudiaethau trwy'r adolygiad



\*Roedd dwy astudiaeth yn berthnasol i'r ddau gwestiwn

## 4.2 Cwestiwn un: Mewn pobl sydd â diabetes sy'n destun sgrinio retinol, a all delweddu retinol anfydriatig gan ddefnyddio Topcon NW500 neu ddyfeisiau tebyg ddarparu delweddau o ansawdd digon da i raddio retinopathi diabetig heb fod angen ymledu cannwyll y llygad yn ffarmacolegol?

### 4.2.1 Nodweddion yr astudiaethau a gynhwyswyd:

Roedd wyth astudiaeth yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn ein hadolygiad, gan ddarparu gwybodaeth a oedd yn berthnasol i'n cwestiwn cyntaf o ddiddordeb:

- 1) Mewn pobl sydd â diabetes sy'n destun sgrinio retinol, a all delweddu retinol anfydriatig gan ddefnyddio Topcon NW500 neu ddyfeisiau tebyg ddarparu delweddau o ansawdd digon da i raddio retinopathi diabetig heb fod angen ymledu cannwyll y llygad yn ffarmacolegol?

Cyhoeddwyd yr astudiaethau a gynhwyswyd rhwng 2015 a 2022. Roedd dwy ohonynt yn adolygiadau systematig a oedd yn cynnwys cyfanswm o 26 (Piyasena M, et al. 2018) a 10 (Hu J, et al. 2019) o astudiaethau, yn ôl eu trefn. Cyhoeddwyd yr holl astudiaethau a gynhwyswyd yn y ddau adolygiad cyn 2015. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys yr adolygiadau yma er mwyn cyflawnder, oherwydd daeth i'r amlwg yn ystod y broses adolygu bod llawer o astudiaethau a oedd yn archwilio cywirdeb diagnostig camerâu 45° anfydriatig yn benodol wedi cael eu cynnal cyn 2015. Roedd ychydig bach o orgyffwrdd yn yr astudiaethau a gynhwyswyd rhwng y ddau adolygiad (n = 4 astudiaeth). Roedd y chwe astudiaeth arall yn cynnwys pum astudiaeth drawstoriadol (Ryan M, et al. 2015; Fahadullah M, et al. 2019; Lee J, et al. 2019; Memon M, et al. 2020; Bastion M, et al. 2022) ac un astudiaeth garfan hydredol (Toy B, et al. 2016). Roedd yr holl astudiaethau'n ceisio asesu cywirdeb diagnostig camera anfydriatig.

Cynhaliwyd yr astudiaethau ar draws ystod o wledydd; dwy o Unol Daleithiau America (Lee J, et al. 2019; Toy B, et al. 2016), dwy o Bacistan (Fahadullah M, et al. 2019; Memon M, et al. 2020), ac un yr un yn India (Ryan M, et al. 2015), a Malaysia (Bastion M, et al. 2022). Nid oedd y ddau adolygiad systematig wedi gosod unrhyw derfynau ar wledydd. Roedd yr adolygiad gan Piyasena M, et al. (2018) yn cynnwys 23 o astudiaethau a gategoreiddiwyd ganddynt fel rhai a oedd yn dod o wledydd 'incwm uchel' a thair a gategoreiddiwyd ganddynt fel rhai a oedd yn dod o wledydd 'incwm canol uchaf'. Nid oedd yr adolygiad gan Hu J, et al. (2019) yn cynnwys unrhyw wybodaeth am y gwledydd y cynhaliwyd yr astudiaethau a gynhwyswyd ynddynt.

Roedd nifer y cyfranogwyr ar draws y chwe phrif astudiaeth a gynhwyswyd yn amrywio o 83 i 6,911. Ar gyfer yr adolygiadau, roedd meintiau samplau'n amrywio o 51 i 1,549 yn adolygiad Piyasena M, et al. (2018), a 55 i 352 yn adolygiad Hu J, et al. (2019).

Roedd y chwe phrif astudiaeth yn defnyddio camerâu ffwndws 45° anfydriatig, yn gyson â'n meini prawf cynnwys ac yn debyg i'r model presennol a ddefnyddir yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y

modelau camera penodol yn amrywio ar draws astudiaethau. Roedd amrywiadau hefyd o ran nifer y delweddau a dynnwyd ar gyfer pob llygad (1- maes, 2- faes ac ati) ac amodau cipio delwedd, a adroddwyd yn llai mynych mewn astudiaethau. Dangosir modelau camerâu a gwybodaeth am faes cipio delwedd yn Nhabl 2. Ar gyfer y ddau adolygiad systematig a gynhwyswyd, roedd Hu J, et al. (2019) wedi asesu cywirdeb diagnostig ffotograffiaeth anfydriatig 1-maes yn unig, tra bod y meini prawf cynnwys ar gyfer adolygiad Piyasena M, et al. (2018) yn ehangach o lawer, ac roedd yr adolygiad yn cynnwys ystod o astudiaethau a oedd yn archwilio camerâu anfydriatig a mydriatig 1-maes, 2-faes a mwy.

#### 4.2.2 Ansawdd yr astudiaethau a gynhwyswyd

Roedd y ddau adolygiad systematig (Piyasena M, et al., 2018; Hu J, et al., 2019) wedi mynegi eu cwestiynau adolygu'n glir, cymhwyso meini prawf cynnwys priodol, a seilio eu goblygiadau ar gyfer polisi, ymarfer, ac ymchwil yn y dyfodol ar y canfyddiadau a gyflwynwyd. Defnyddiodd pob adolygiad dulliau echdynnu data trwyadl, gan gynnwys defnyddio templedi strwythuredig ac echdynnu annibynnol gan adolygwr arall gyda dulliau ar gyfer datrys anghysondebau. Dangosodd yr awduron ystyriaeth briodol o ddadansoddi ystadegol hefyd, gan sicrhau bod heterogenedd yn cael ei asesu cyn cyfuno canlyniadau astudiaethau. Fodd bynnag, roedd cyfyngiadau methodolegol yn amlwg. Nid oedd y naill adolygiad na'r llall wedi chwilio llenyddiaeth lwyd, a allai fod wedi arwain at hepgor astudiaethau perthnasol heb eu cyhoeddi. Yn ogystal, nid oedd Hu J, et al. (2019) wedi adrodd ar eu strategaeth chwilio, gan godi pryderon ynglŷn â thryloywder eu proses adnabod tystiolaeth a'r gallu i'w hatgynhyrchu. Nid oedd Piyasena M, et al. (2018) wedi asesu tebygolrwydd tuedd cyhoeddi, ac o'i hystyried ochr yn ochr â'r diffyg chwilio llenyddiaeth lwyd, mae hyn yn cyflwyno ansicrwydd ynglŷn ag effaith tuedd cyhoeddi ar y canfyddiadau cyffredinol.

Ar gyfer y chwe phrif astudiaeth, defnyddiwyd yr offeryn arfarnu beirniadol QUADAS-2 i asesu risg tuedd (Whiting P, et al. 2011). Roedd yr holl astudiaethau wedi osgoi dyluniad rheoli achos, a hynny'n briodol, ac wedi sicrhau bod y prawf mynegai'n cael ei gynnal cyn y canlyniadau safon gyfeirio, ac felly heb wybodaeth amdanynt. At hynny, derbyniodd yr holl gyfranogwyr yr un safon gyfeirio, gan helpu i sicrhau cysondeb wrth ddilysu canlyniadau. Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau hefyd wedi adrodd am gyfnod priodol rhwng y prawf mynegai a'r safon gyfeirio, a gynhaliwyd fel arfer ar yr un diwrnod neu o fewn cyfnod byr; fodd bynnag, nid oedd un astudiaeth (Toy B, et al. 2016) wedi adrodd am y cyfnod, a gyflwynodd rywfaint o ansicrwydd.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, amlygwyd sawl cyfyngiad. O ran dethol cleifion, roedd rhai astudiaethau (Toy B, et al. 2016; Ryan M, et al. 2015) yn cynnwys cleifion a atgyfeiriwyd neu gyfranogwyr haenedig yn seiliedig ar hyd diabetes, a allai gyflwyno tuedd dethol. Nodwyd pryderon hefyd ynglŷn â pherthnasedd o ran y safon gyfeirio: mewn rhai achosion (Bastion M, et al. 2022; Lee J, et al. 2019), nid oedd y safon gyfeirio'n safon euraid gydnabyddedig ond yn hytrach yn elfen o ymarfer sgrinio arferol, gan godi amheuan ynglŷn â'i chywirdeb diagnostig. Yn ogystal, er yr adroddodd y rhan fwyaf o'r astudiaethau nad oedd dehonglwyr profion wedi gweld canlyniadau'r prawf arall, ni ddatganwyd hyn yn glir mewn sawl achos (Toy B, et al. 2016; Memon M, et al. 2020; Ryan M, et al. 2015), gan gynyddu risg tuedd arsylwr.

Ymdriniwyd â'r maes llif ac amseru yn dda yn gyffredinol, a derbyniodd yr holl gleifion y ddau brawf; fodd bynnag, nid oedd Toy B, et al. (2016) wedi adrodd yn glir p'un a oedd yr holl gyfranogwyr wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad terfynol. At ei gilydd, er bod yr astudiaethau'n dangos cryfderau methodolegol, ceir pryderon mewn rhai astudiaethau ynglŷn â defnyddio safonau cyfeirio is-optimaid, gweithdrefnau cuddio aneglur, ac adrodd anghyflawn mewn rhai meysydd, a allai effeithio ar ddilysrwydd mewnol y canfyddiadau a'r gallu i'w cyffredinoli.

### 4.2.3 Canfyddiadau

Adroddodd yr holl astudiaethau a gynhwyswyd am sensitifrwydd a phenodolrwydd eu camerâu anfydriatig o ddi-ddordeb, ac roedd rhai hefyd wedi cyfrifo'r gwerth rhagfynegol positif (PPV) a'r gwerth rhagfynegol negatif (NPV) (n = 4 astudiaeth), yr ardal o dan gromlin nodweddiadol weithredol y derbynnydd (n = 3 astudiaeth) ac ystadegau kappa yn cymharu'r cytundeb rhwng testun y mynegai a'r safon gyfeirio (n = 6 astudiaeth). Roedd y safonau cyfeirio a ddefnyddiwyd yn amrywio ar draws astudiaethau, ond roeddent yn cynnwys ymledu cannyll y llygad yn ffarmacolegol ym mhob achos.

Mae Tabl 2 isod yn cyflwyno'r canfyddiadau cywirdeb diagnostig a adroddwyd ym mhob prif astudiaeth, yn ogystal â chanfyddiadau cronedig y metaddadansoddiadau a gynhaliwyd yn y ddau adolygiad systematig a gynhwyswyd. Y safon a dderbynnir ar gyfer prawf sgrinio retinopathi diabetig sy'n bygwth golwg, a osodwyd gan Gymdeithas Ddiabetig Prydain, yw y dylai'r prawf gyflawni sensitifrwydd (tebygolrwydd o gael canlyniad prawf positif mewn pobl sydd â retinopathi diabetig) o  $\geq 80\%$ , a phenodolrwydd lleiaf (cyfran y cyfranogwyr heb retinopathi diabetig y mae'r prawf yn nodi'n gywir nad ydynt yn dioddef ohono) o 95% (Cymdeithas Ddiabetig Prydain, 1997). Rydym wedi amlygu pa ganfyddiadau astudiaeth sy'n fwy na'r trothwyon hyn yn Nhabl 2.

Tabl 2: Astudiaethau a gynhwyswyd a chanfyddiadau cywirdeb diagnostig ar gyfer cwestiwn un

| Astudiaeth  | Camera                   | Math o ddelwedd                      | Safon gyfeirio   | Canfyddiadau   |
|---|--------------------------|--------------------------------------|--|--|
| Piyasena M, et al. (2018)<br><br>Adolygiad systematig | Nifer o fathau o gamerau | Un maes, dau faes a mwy na dau faes. | Astudiaeth Triniaeth Gynnar Retinopathi Diabetig (ETDRS) Dehongli delweddau saith maes (safon euraid), bio-ficrosgopeg fydriatig/ Offthalmosgopeg (safon glinigol) | Canfyddiadau cyffredinol cronedig o fetaddadansoddiad (ar gyfer anfydriatig): <ul style="list-style-type: none"> <li>Sensitifrwydd: 86% (95% CI: 85 i 87%; 18 astudiaeth)*</li> <li>Penodolrwydd: 93% (95% CI: 92 i 93%; 16 astudiaeth)</li> </ul> 1 maes (anfydriatig): <ul style="list-style-type: none"> <li>Sensitifrwydd: 78% (95% CI: 76 i 80%; 8 astudiaeth)</li> <li>Penodolrwydd: 91% (95% CI: 90 i 92%; 8 astudiaeth)</li> </ul> 2 faes (anfydriatig): |

|   |  |   |  |   |
|---|--|---|--|---|
|   |  |   |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 91% (95% CI: 90 i 93%; 4 astudiaeth)*</li> <li>• Penodolrwydd: 94% (95% CI: 93 i 95%; 4 astudiaeth)</li> </ul> <p>Mwy na 2 faes (anfydriatig):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 88% (95% CI: 86 i 91%; 6 astudiaeth)*</li> <li>• Penodolrwydd: 94% (95% CI: 93 i 96%; 4 astudiaeth)</li> </ul>   |
| Hu J, et al. (2019)<br><br>Adolygiad systematig         | Camera ffwndws anfydriatig (nifer o fathau)  | Delweddau 45° un maes                                   | Ffotograffiaeth ffwndws 7 maes, neu ficrobiosgopeg lamp slit | Canfyddiadau cronedig o fetaddadansoddiad: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 68% (95% CI: 59 i 76%; 10 astudiaeth)</li> <li>• Penodolrwydd: 94% (95% CI: 89 i 97%; 10 astudiaeth)</li> <li>• PLR: 11.2 (95% CI: 6.1 i 20.8; 10 astudiaeth)</li> <li>• NLR: 0.34 (95% CI: 0.26 i 0.44; 10 astudiaeth)</li> <li>• Amcangyfrif DOR cronedig (gan ddefnyddio model effeithiau ar hap): 33 (95% CI: 17 i 65; 10 astudiaeth)</li> <li>• Gwerth AUC cryno 0.88 (95% CI: 0.85 i 0.90; 10 astudiaeth)</li> </ul> |
| Bastion M, et al (2022)<br><br>Astudiaeth drawstoriadol | Camera ffwndws anfydriatig (Canon CR-2 Plus) | Delweddau 45° dau faes                                  | Archwiliad ffwndws wedi'i ymledu                             | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ardal o dan gromlin nodweddiadol weithredol y derbynnydd (AUROC): 0.7955 (95% CI: 0.73036 i 0.86055)</li> <li>• Sensitifrwydd: 77.27% (95% CI: 65.3 i 86.7%)</li> <li>• Penodolrwydd: 81.82% (95% CI: 72.2 i 89.2%)</li> <li>• PPV: 76.1% (95% CI: 64.9 i 85.3%)</li> <li>• NVP 82.7% (95% CI: 72.8 i 89.7%)</li> <li>• Cytundeb cymedrol i sylweddol â'r DFE ar gyfer asesiad DR ar gyfer arbenigwyr 1 a 2, yn ôl eu trefn (k=0.59 a 0.64)</li> </ul>                               |
| Toy B, et al. (2016)                                    | Camera ffwndws anfydriatig                   | Delwedd ffwndws 45° 1-maes yn canolbwyntio ar y macwla. | Archwiliad ffwndws wedi'i ymledu, gan gynnwys biomicrosgopeg | O gymharu â'r radd glinigol Retinopathi Diabetig Clinigol Rhyngwladol (ICDR): <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 91%*</li> </ul>   |

|  |  |  |  |   |
|--|--|--|--|---|
| Astudiaeth garfan                                      | (Nidek NM-1000)                          |  | lamp slit ac offthalmosgopeg anuniongyrchol                    | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Penodolrwydd: 97%*</li> <li>• PPV: 85%</li> <li>• NPV: 98%</li> <li>• Kappa: 0.86</li> </ul> <p>Retinopathi Diabetig Anamlhaol Cymedrol (NPDR) neu glefyd gwaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 93%*</li> <li>• Penodolrwydd: 75%</li> <li>• PPV: 42%</li> <li>• NPV: 98%</li> <li>• Kappa: 0.45</li> <li>• AUROC: 0.97</li> </ul>                                       |
| Memon M, et al (2020)<br>Astudiaeth drawstoriadol      | Camera anfydriatig (Canon CR-1)          | Dwy ddelwedd retinol 45°, un o ganol y macwla a'r llall o ganol y disg optig | Lens ffwndws a lamp slit ar ôl ymledu kannwyll y llygad        | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd 76%</li> <li>• Penodolrwydd 96.63%*</li> <li>• PPV 84.3%</li> <li>• NPV 90.7%</li> <li>• K=0.725</li> </ul>  |
| Fahadullah M, et al (2020)<br>Astudiaeth drawstoriadol | Camera anfydriatig (Canon CR-1)          | Delwedd ffwndws 45° unigol   | Lens ffwndws 90-D a lamp slit, ar ôl ymledu kannwyll y llygad  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 72%</li> <li>• Penodolrwydd: 86.3%</li> <li>• PPV: 62%</li> <li>• NPV: 90%</li> <li>• K=0.551</li> </ul>  |
| Ryan M, et al. (2015)<br>Astudiaeth drawstoriadol      | Camera anfydriatig (Nidek Model AFC-230) | Tair delwedd 45°   | Ffotograffiaeth ffwndws 7-maes gan ddefnyddio Zeiss FF450 Plus | <p>Unrhyw retinopathi diabetig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 81% (95% CI: 75-86)*</li> <li>• Penodolrwydd: 94% (95% CI: 92-96)</li> <li>• K= 0.76 (95% CI: 0.71 i 0.82)</li> </ul> <p>Retinopathi diabetig sy'n bygwth golwg:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 54% (95% CI: 40-67)</li> <li>• Penodolrwydd: 99% (95% CI: 98-100)*</li> <li>• K= 0.64 (95% CI: 0.52 i 0.76)</li> </ul> |
| Lee J, et al. (2019)<br>Astudiaeth drawstoriadol       | Camera anfydriatig (Topcon TRC-NW8)      | Delweddau 45° un maes, dau faes a thri maes                                  | Offthalmosgopeg fydratig                                       | <p>1-maes:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 87.88%*</li> <li>• Penodolrwydd: 75.86%</li> <li>• Tan-ddarlleniadau: 26.26%</li> <li>• Gor-ddarlleniadau: 15.38%</li> <li>• Cyfran cytundeb: 57.81%</li> <li>• Ystadegyn Kappa: 0.55 (P &lt; 0.001)</li> </ul>  |

|  |  |  |  |  |
|--|--|--|--|--|
|  |  |  |  | <p>2-faes:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 93.94%*</li> <li>• Penodolrwydd: 68.97%</li> <li>• Tan-ddarlleniadau: 20.20%</li> <li>• Gor-ddarlleniadau: 25.96%</li> <li>• Cyfran cytundeb: 57.81%</li> <li>• Ystadegyn Kappa: 0.52 (P &lt; 0.001)</li> </ul> <p>3-maes:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sensitifrwydd: 100%*</li> <li>• Penodolrwydd: 79.31%</li> <li>• Tan-ddarlleniadau: 5.05%</li> <li>• Gor-ddarlleniadau: 23.08%</li> <li>• Cyfran cytundeb: 77.34%</li> <li>• Ystadegyn Kappa: 0.72 (P &lt; 0.001)</li> </ul> |
|--|--|--|--|--|

\*Gwerth sensitifrwydd neu benodolrwydd cymedrig  $\geq$  meini prawf Cymdeithas Ddiabetig Prydain (1997) ar gyfer dulliau sgrinio DR (sensitifrwydd:  $\geq$  80%, penodolrwydd:  $\geq$  95%).

#### Sensitifrwydd:

Adroddodd y ddau adolygiad systematig a'r chwe phrif astudiaeth ar ganlyniadau sensitifrwydd. Nid oedd canfyddiadau cronodig cyffredinol y ddau adolygiad systematig yn uwch na sensitifrwydd o  $\geq$  80% (Piyasena M, et al. 2018; Hu J, et al. 2019). Fodd bynnag, cynhaliodd yr adolygiad gan Piyasena M, et al. (2018) is-ddadansoddiadau yn ôl y math o ddelwedd, a chanfuont fod canfyddiadau cronodig dadansoddiadau o gamerâu 2-faes a chamerâu mwy na 2-faes yn uwch na'r gwerth sensitifrwydd  $\geq$  80% (2-faes 91% [95% CI: 90 i 93%; pedair astudiaeth]; mwy na 2-faes 88% [95% CI: 86 i 91%; chwe astudiaeth]).

O ran y prif astudiaethau a gynhwyswyd, roedd sensitifrwydd yn amrywio o 72% i 100%, ac roedd tair o'r chwech yn uwch na sensitifrwydd o  $\geq$  80% wrth brofi delweddu anfydriatig. Roedd y tair astudiaeth a oedd yn uwch na'r trothwy hwn i gyd yn wahanol, gydag un yn profi cywirdeb delweddu 1-maes o gymharu â safon gyfeirio archwiliad ffwndws wedi'i ymledu, gan gynnwys biomicrosgopeg lamp slit ac offthalmosgopeg anuniongyrchol (Toy B, et al. 2016). Un a oedd yn profi delweddu 3-maes o gymharu â safon gyfeirio ffotograffiaeth ffwndws 7-maes a dynnwyd gan gamera o fath gwahanol (Ryan M, et al. 2015), ac un a oedd yn profi cywirdeb diagnostig delweddau 1, 2 a 3-maes (Lee J, et al. 2019) o gymharu â safon gyfeirio offthalmosgopeg fydratig.

#### Penodolrwydd:

Adroddodd y ddau adolygiad systematig a'r chwe phrif astudiaeth ar ganlyniadau penodolrwydd. Nid oedd canfyddiadau cronodig cyffredinol nac is-ddadansoddiadau'r ddau adolygiad systematig yn

uwch na phenodolrwydd o  $\geq 95\%$  (Piyasena M, et al. 2018; Hu J, et al. 2019). O ran y prif astudiaethau, roedd penodolrwydd yn amrywio o 69% i 97%. Roedd dwy o'r chwech yn cyrraedd neu'n uwch na'r gwerth penodolrwydd  $\geq 95\%$  (Toy B, et al. 2016; Memon M, et al. 2020), a dim ond un o'r rhain (Toy B, et al. 2016) oedd yn cyrraedd y gwerth sensitifrwydd uchod hefyd. Yn ogystal, nid oedd yr astudiaeth gan Ryan M, et al. (2015) wedi cyrraedd na mynd yn uwch na'r gwerth penodolrwydd ar gyfer canfod unrhyw retinopathi diabetig, ond adroddodd yr awduron am benodolrwydd o 99% (95% CI: 98 i 100%) ar gyfer canfod retinopathi diabetig sy'n bygwth golwg. Defnyddiodd yr astudiaethau wahanol fodelau camerâu a mathau o ddelweddau, a phrofwyd cywirdeb diagnostig yn erbyn gwahanol safonau cyfeirio.

Canlyniadau eraill:

Archwiliodd yr astudiaethau a gynhwyswyd amryw ganlyniadau cywirdeb diagnostig eraill ochr yn ochr â sensitifrwydd a phenodolrwydd.

Cyfrifodd un adolygiad systematig (Hu J, et al. 2019) i ba raddau y byddai canlyniad prawf positif yn fwy tebygol mewn pobl â retinopathi diabetig o gymharu â'r rhai hynny heb retinopathi diabetig (gwerth tebygolrwydd positif cronedig) ar gyfer y rhai sy'n cael delweddu camera 1-maes anfydriatig. Canfu'r adolygiad gymhareb debygolrwydd gadarnhaol o 11.2 (95% CI: 6.1 i 20.8; 10 astudiaeth). Cyfrifodd yr un adolygiad hefyd i ba raddau y byddai canlyniad prawf negatif yn llai tebygol mewn cleifion â retinopathi diabetig o gymharu â'r rhai hynny heb retinopathi diabetig (gwerth tebygolrwydd negatif cronedig) ar gyfer y rhai sy'n cael delweddu camera 1-maes anfydriatig. Canfuont gymhareb debygolrwydd negyddol o 0.34 (95% CI: 0.26 i 0.44; 10 astudiaeth).

Cyfrifodd pedair o'r chwe phrif astudiaeth (Toy B, et al. 2016; Memon M, et al. 2020; Fahadullah M, et al. 2019; Bastion M, et al. 2022) ganran y cleifion â chanlyniadau prawf positif o ddelweddu camera anfydriatig o gyfanswm nifer y bobl â retinopathi diabetig (gwerth rhagfynegol positif), a chanran y bobl â chanlyniadau prawf negatif o ddelweddu camera anfydriatig o gyfanswm nifer y bobl heb retinopathi diabetig (gwerth rhagfynegol negatif). Roedd y canrannau'n amrywio o 62% i 85% ar gyfer gwerth rhagfynegol positif, ac o 82.7% i 98% ar gyfer gwerth rhagfynegol negatif.

Cyfrifodd dwy o'r chwe phrif astudiaeth yr ardal o dan gromlin nodweddiadol weithredol y derbynnydd (Bastion M, et al. 2022; Toy B, et al. 2016), sy'n fesur a ddefnyddir i gyfrifo pa mor effeithiol yw'r prawf (yn yr achos hwn, delweddu camera anfydriatig) wrth wahaniaethu rhwng y rhai sydd â retinopathi diabetig a'r rhai sydd heb retinopathi diabetig. Byddai gan brawf diagnostig perffaith werth ardal o dan y gromlin o 1.0, tra byddai gan brawf sy'n gwahaniaethu'n wael ardal o 0.5 neu lai (Simundic A. 2009). Cyfrifodd Bastion M, et al. (2022) ardal o dan gromlin nodweddiadol weithredol y derbynnydd o 0.7955 ar gyfer ffotograffiaeth ffwmdws anfydriatig (95% CI: 0.73036 i 0.86055), sy'n awgrymu bod y camera anfydriatig yn gwahaniaethu'n eithaf da rhwng y rhai sydd â retinopathi diabetig a'r rhai sydd hebddo. Cyfrifodd Toy B, et al. 2016 ardal o dan y gromlin o 0.97 ar gyfer sensitifrwydd ffotograffiaeth anfydriatig i ganfod retinopathi diabetig anamlhaol neu glefyd gwaeth, sy'n awgrymu bod y camera anfydriatig yn gallu gwahaniaethu'n dda iawn rhwng y rhai sydd â retinopathi diabetig a'r rhai sydd hebddo.

Yn ogystal, cyfrifodd un adolygiad systematig yr ardal o dan gromlin nodweddiadol weithredol y derbynnydd wedi'i chronni o 10 astudiaeth (Hu J, et al. 2019), gyda gwerth o 0.88 (95% CI: 0.85 i 0.90), sy'n awgrymu bod camerâu anfydriatig 1-maes yn gallu gwahaniaethu'n dda rhwng y rhai sydd â retinopathi diabetig a'r rhai sydd hebdo.

### **4.3 Cwestiwn dau: Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â delweddau retinol anfydriatig aflwyddiannus neu o ansawdd gwael yn y rhai sy'n destun sgrinio retinopathi diabetig?**

#### **4.3.1 Nodweddion yr astudiaethau a gynhwyswyd**

Roedd naw astudiaeth yn bodloni'r meini prawf i'w cynnwys yn ein hadolygiad, gan ddarparu gwybodaeth a oedd yn berthnasol i ateb ein hail gwestiwn o ddiddordeb:

- Pa ffactorau (e.e. oedran, cydafiacheddau ociwlar, ethnigrwydd, amgylcheddau) sy'n gysylltiedig â delweddau retinol anfydriatig aflwyddiannus neu o ansawdd gwael yn y rhai sy'n destun sgrinio retinopathi diabetig?

Cyhoeddwyd yr astudiaethau a gynhwyswyd rhwng 2015 a 2023. Cynhaliwyd tair yn Unol Daleithiau America (Dow E, et al. 2023; Lee J, et al. 2019; Toy B, et al. 2016), ac un yr un yn Awstralia (O'Halloran R, et al. 2018), Brasil (Rosses A, et al. 2017), Hwngari (Szabó D, et al. 2015), Iran (Banaee T, et al. 2017), yr Eidal (Porta M, et al. 2017) a Sbaen (Rico-Sergado L, et al. 2016).

Defnyddiwyd amrywiaeth o fathau o astudiaethau, gan gynnwys dwy astudiaeth cyn ac ar ôl (Banaee T, et al. 2017; Rosses A, et al. 2017), dwy gyfres achosion (Porta M, et al. 2017; Szabó D, et al. 2015), dwy astudiaeth drawstoriadol (Dow E, et al. 2023; Lee J, et al. 2019), un astudiaeth gymharol ôl-syllol (O'Halloran R, et al. 2018), un astudiaeth rheoli achosion (Rico-Sergado L, et al. 2016), ac un astudiaeth garfan hydredol (Toy B, et al. 2016).

Roedd nifer y cyfranogwyr a gynhwyswyd ym mhob astudiaeth yn amrywio o 128 i 22,466, er bod chwech o'r naw astudiaeth yn cynnwys llai na 300 o gyfranogwyr (Banaee T, et al. 2017; Lee J, et al. 2019; O'Halloran R, et al. 2018; Rico-Sergado L, et al. 2016; Rosses A, et al. 2017; Szabó D, et al. 2015).

Defnyddiodd pob un o'r naw astudiaeth gamerau ffwndws 45° anfydriatig, yn unol â'n meini prawf cynnwys (sy'n golygu eu bod yn debyg i'r model presennol yng Nghymru), ond roedd y modelau penodol a ddefnyddiwyd yn amrywio. Roedd amrywiadau hefyd o ran nifer y delweddau a dynnwyd ar gyfer pob llygad (1- maes, 2- faes, 3-maes) ac amodau cipio delwedd, ond ni adroddwyd gwybodaeth am hyn yn aml. Crynhoir y gwahaniaethau o ran camerâu ac amodau cipio delwedd yn Nhabl 3.

Roedd yr astudiaethau hefyd yn amrywio o ran pwy gipiodd y delweddau (e.e. ffotograffydd hyfforddedig, nyrs, technegydd ac ati) a phwy raddiodd y delweddau ar gyfer retinopathi diabetig, ynghyd â sut y graddiwyd y delweddau. Defnyddiodd saith fersiwn o Raddfa Difrifoldeb Clefyd Retinopathi Diabetig Clinigol Rhyngwladol i raddio difrifoldeb retinopathi diabetig o'r delweddau a dynnwyd (Lee J, et al. 2019; Dow E, et al. 2023; O'Halloran R, et al. 2018; Porta M, et al. 2017; Rosses A, et al. 2017, Szabo D, et al. 2015; Toy B, et al. 2016), ac roedd dwy astudiaeth (Banaee T, et al. 2017; Rico-Sergado L, et al. 2016) wedi adrodd am sut oeddent wedi graddio delweddau, ond nid oeddent wedi datgan a oedd hyn wedi'i seilio ar unrhyw system ddisbarthu ryngwladol.

Tabl 3: Y mathau o gamerâu a delweddau a ddefnyddiwyd ar draws yr astudiaethau:

| Astudiaeth:                 | Y camera a ddefnyddiwyd*:      | Y math o ddelwedd*:                               | Amodau cipio delwedd*:   | Cipiwyd y ddelwedd gan*:   | Graddiwyd y ddelwedd gan*:   | Cymharydd:   |
|-----------------------------|--------------------------------|---|--------------------------|--|--|--|
| Banaee T, et al. (2017)     | Canon CR2-45NM                 | Ffwndws 45° anstereosgopig                        | Golau ystafell cyffredin | Ffotograffydd hyfforddedig   | Yn annibynnol gan ddau arbenigwr retinol   | Lefel mydriasis (heb ymledu/ ymledu'n rhannol/ ymledu'n llawn) |
| Dow E, et al. (2023)        | CenterVue DRS neu TopCon NW400 | Ffwndws un maes                                   | Heb adrodd               | Cynorthwywyr meddygol hyfforddedig                                 | Arbenigwyr retinowydrog  | Dim  |
| Lee J, et al. (2019)        | TopCon TRC-NW8                 | Delweddau retinol 45° tri maes yn y ddau lygad    | Heb adrodd               | Technegydd hyfforddedig  | Optometrydd  | Archwiliad offthalmolegol wedi ymledu                          |
| O'Halloran R, et al. (2018) | CentreVue DRS <sup>+</sup>     | Ffwndws lliw 45°                                  | Heb adrodd               | Nyrsys a gweithwyr iechyd Brodorol (gweithredwyr hyfforddedig)     | Graddiwr ffotograffau retinol (ar gyfer delweddau ffwndws lliw 45°), Offthalmolegydd ar gyfer delweddau Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT) | TopCon 3D OCT-1 Maestro <sup>5</sup>                           |
| Porta M, et al. (2017)      | CenterVue SpA DRS              | Dwy ddelwedd liw ddigidol 45° anstereosgopig sy'n | Heb adrodd               | Gweithwyr gofal llygad proffesiynol trwyddedig, wedi'u hyfforddi'n | Offthalmolegwyr  | Dim  |

|                               |                   |                                    |                 |   |                                   |   |
|-------------------------------|-------------------|------------------------------------|-----------------|---|-----------------------------------|---|
|                               |                   | gorgyffwrdd yn rhannol             |                 | llawn i ddefnyddio'r camera                                       |                                   |   |
| Rico-Sergado L, et al. (2016) | TopCon TRC-NW 100 | Delweddau lliw 45° o'r ddau lygad  | Heb adrodd      | Nyrs hyfforddedig   | Arbenigwr retinol                 | Delweddau y gellid eu graddio o'r un camera   |
| Rosses A, et al. (2017)       | Canon CR-2        | Dwy ddelwedd faes                  | Ystafell dywyll | Meddyg teulu  | Meddygon teulu ac Offthalmolegwyr | Delweddau mydriatig (diferion llygaid tropicamide) a dynnwyd gan ddefnyddio'r un camera                 |
| Szabó D, et al. (2015)        | TopCon TRC-NW200  | Tri ffwndws lliw 45° fesul llygad  | Heb adrodd      | Cynorthwywyr hyfforddedig nad ydynt yn arbenigo mewn gofal llygad | Dau Offthalmolegydd hyfforddedig  | Delweddau mydriatig ar gyfer is-set, gyda'r un camera   |
| Toy B, et al. (2016)          | Nidek NM=1000     | Un ddelwedd ffwndws 45° maes gweld | Heb adrodd      | Heb adrodd  | Offthalmolegydd                   | Archwiliad ffwndws wedi'i ymledu gan gynnwys biomicrosgopeg lamp slit ac offthalmosgopeg anuniongyrchol |

\*fel y disgrifiwyd yn yr astudiaeth gyhoeddus

<sup>†</sup>Adroddwyd ar amodau rheoli, oherwydd dyna'r grŵp yr oedd gennym ddiddordeb ynddo at ddibenion yr adolygiad hwn.

<sup>§</sup>Grŵp ymyrraeth yn y cyhoeddiad, ond fe'i hadroddwyd fel grŵp cymharu at ddibenion ein hadolygiad

Roedd saith o'r naw astudiaeth yn cynnwys grŵp rheoli neu amod cymharu, ar gyfer is-set o gyfranogwyr yr astudiaeth o leiaf (Banaee T, et al. 2017; O'Halloran R, et al. 2018; Lee J, et al. 2019; Rico-Sergado L, et al. 2016; Rosses A et al. 2017; Toy B, et al. 2015; Szabó D, et al. 2015). Mewn pum achos, y gymhariaeth oedd delweddau mydriatig a dynnwyd o'r un cyfranogwr, neu archwiliad offthalmolegol wedi ymledu (Banaee T, et al. 2017; Lee J, et al. 2019; Rosses A, et al. 2017; Szabó D, et al. 2015, Toy B, et al. 2016). Mewn un astudiaeth (Rico-Sergado L, et al. 2016), a oedd yn archwilio ansawdd delweddau yn bennaf, cyfatebwyd cyfranogwyr a chanddynt ddelweddau na ellid eu graddio â chyfranogwyr rheoli a chanddynt ddelweddau y gellid eu graddio yn ôl oedran a rhyw (tynnwyd yr holl ddelweddau gan gamerâu anfydriatig). Mewn astudiaeth arall (O'Halloran R, et al. 2018), cafodd y grŵp ymyrraeth ddelweddu ffwndws lliw 45° anfydriatig a sgan Tomograffeg Cydlyniant Optegol (OCT), a chafodd y grŵp rheoli ddelweddu ffwndws lliw 45° anfydriatig yn unig. Felly, yn yr achos hwn, y grŵp rheoli oedd yr un tebycach i Gymru ar gyfer ein hadolygiad ni, ac felly'r grŵp yr oedd gennym ddiddordeb ynddo. Nid oedd dwy astudiaeth yn cynnwys grŵp nac amod

cymharu (Dow E, et al. 2023; Porta M, et al. 2017).

Mewn dwy astudiaeth, roedd yr ymchwiler yn ymwneud yn benodol ag ansawdd delweddau neu'r gallu i'w graddio, a ffactorau a oedd yn effeithio ar hyn (Banaee T, et al. 2017; Rico-Sergado L, et al. 2016). Roedd nod ymchwiler saith astudiaeth yn wahanol, ond aseswyd y gallu i raddio delweddau fel canlyniad, neu mewn is-ddadansoddiad (Dow E, et al. 2023; Lee J, et al. 2019; O'Halloran R, et al. 2018; Porta M, et al. 2017; Rosses A, et al. 2017; Szabó D et al. 2015; Toy B, et al. 2016). Roedd deg canfyddiad a adroddwyd mewn saith astudiaeth yn cynnwys dadansoddiad ategol cyfyngedig neu ddim dadansoddiad ategol, ac amlinellir y rhain yn adran 4.3.3.

### 4.3.2 Ansawdd yr astudiaethau a gynhwyswyd

Defnyddiodd yr adolygiad amrywiaeth o fathau o astudiaethau, ac felly fe'u harfarnwyd gennym gan ddefnyddio amrywiaeth o restrau gwirio arfarnu beirniadol gan Sefydliad Joanna Briggs (JBI) (Barker T, et al. 2024; Moola S, et al. 2020; Munn Z, et al. 2020; Whiting P, et al. 2011) i sicrhau bod yr ystyriaethau ansawdd mwyaf priodol yn cael eu harchwilio ar gyfer pob astudiaeth. Nodwyd pryderon methodolegol a allai effeithio ar ddilysrwydd a dibynadwyedd y canfyddiadau ar draws pob astudiaeth, er bod y rhain yn eithaf heterogenaidd.

Defnyddiodd tair astudiaeth ddyluniad arbrefol (Banaee T, et al. 2017; O'Halloran R, et al. 2018; Rosses A, et al. 2017) ac fe'u harfarnwyd gan ddefnyddio rhestr wirio led-arbrofol JBI (Barker T, et al. 2024). Er yr adroddwyd ar ddulliau'r astudiaethau yn dda yn gyffredinol, nodwyd rhai pryderon ynglŷn â dadansoddi'r canlyniadau. Yn yr astudiaeth gan O'Halloran R, et al. (2018), a oedd yn ceisio cymharu defnyddio OCT ynghyd â camera ffwndws â defnyddio camera ffwndws anfydriatig yn unig mewn rhaglen sgrinio retinopathi diabetig ar gyfer Awstraliaid Brodorol, mae dilysrwydd y canfyddiadau ynglŷn â ffactorau cleifion sy'n gysylltiedig â delweddau na ellid eu graddio yn aneglur, gan na adroddwyd am ddadansoddiad i ategu'r canlyniadau. At hynny, mae'n bosibl bod prif ganfyddiad yr astudiaeth wedi'i ddrysu, oherwydd bod y papur yn crybwyll bod y camera OCT a ddefnyddiwyd gan yr ymyrraeth yn newydd i'r rhaglen sgrinio ac y gallai anghyefindra staff ag ef fod wedi effeithio ar gyfraddau'r delweddau na ellid eu graddio, gan ddrysu'r gwir ganlyniad, o bosibl. Roedd canfyddiadau'r astudiaeth gan Rosses et al. (2017) wedi'u hadrodd yn wael hefyd, gyda 183 o ddelweddau o'r sampl lawn yn cael eu defnyddio yn y dadansoddiad o ddelweddau na ellid eu graddio, heb gyfiawnhau pam. Daw'r astudiaeth gan Banaee T, et al (2017) i'r casgliad fod gan ffotograffau ffwndws anfydriatig gyfradd uchel o ddelweddau na ellid eu graddio mewn cleifion sydd ag iris tywyll. Er bod y data'n dangos yn glir bod cyfran uwch o ddelweddau na ellid eu graddio yn y grŵp anfydriatig o gymharu â grwpiau ymledu'n rhannol neu'n llawn, mae'n ymddangos bod y casgliad hwn yn dibynnu ar dybiaeth heb ei dilysu. Yn benodol, nid yw'r awduron yn adrodd am union gyfran y cyfranogwyr sydd ag iris tywyll, gan ragdybio yn lle hynny bod y rhan fwyaf o gleifion yn eu carfan Iranaidd yn meddu ar y nodwedd hon. Ni chynhaliwyd dadansoddiad is-grŵp na haenu yn seiliedig ar liw iris. Fel y cyfryw, mae'r gallu i gyffredinoli'r casgliad i gleifion ag iris tywyll yn amheus, ac mae dilysrwydd priodoli'r gwahaniaethau a arsylwyd mewn ansawdd delweddau i liw'r iris yn benodol yn gyfyngedig heb dystiolaeth ategol bellach. Yn ogystal, ni adroddodd Banaee T et al.

(2017) b'un a gynhaliwyd cyfrifiad pŵer ar gyfer ei ddadansoddiad ystadegol. Mae astudiaeth O'Halloran R, et al. (2018) yn rhybuddio y bydd maint bach y sampl wedi cyfyngu ar bŵer yr astudiaeth, a'i fod yn annigonol ar gyfer rhai dadansoddiadau.

Roedd pedair astudiaeth yn arsylwadol a chawsant eu harfarnu gan ddefnyddio rhestr wirio a oedd yn briodol i'r astudiaeth. Roedd un yn astudiaeth rheoli achosion (Rico-Sergado L et al. 2016), roedd un yn astudiaeth drawstoriadol (Dow E, et al. (2023) ac roedd dwy yn astudiaethau cyfres achosion (Porta M, et al. 2017; Szabó D, et al. 2015). Nodwyd rhai pryderon ar draws yr astudiaethau. Nodwyd rhai gwahaniaethau demograffig rhwng achosion a rheolaethau yn yr astudiaeth gan Rico-Sergado L et al. (2016), ynghyd â diffyg ystyriaeth o ffactorau drysu posibl. Amlygwyd newidynnau drysu yn yr astudiaeth drawstoriadol gan Dow E, et al. (2023), ond nid oedd yn glir p'un a gynhaliwyd asesiad ohonynt. Roedd rhai pryderon hefyd ynglŷn â rhywfaint o ddadansoddi ystadegol, gydag anghysondebau ar draws yr astudiaeth yn ymwneud â data ethnigrwydd, a sut oedd hyn wedi'i ddosbarthu a'i ddefnyddio mewn rhai dadansoddiadau. Roedd rhai pryderon yn ymwneud â'r ddwy astudiaeth cyfres achosion (Porta M, et al. 2017; Szabó D, et al. 2015). Nid oedd yr astudiaeth gan Porta et al. (2016) wedi cynnwys yr holl gyfranogwyr, gan fethu â chynnwys 2,007 o gyfranogwyr o ganlyniad i ddiffyg data demograffig cyflawn gan gyfanswm poblogaeth o 24,473. Roedd astudiaeth Szabó D, et al. (2015) hefyd yn cynnwys astudiaeth beilot gymharol ar is-set o gyfranogwyr. Fodd bynnag, roedd maint sampl yr is-set yn fach iawn ac ni adroddodd yr awduron b'un a gynhaliwyd cyfrifiad pŵer, gan leihau hyder yn nibynadwyedd y canlyniadau.

Mae hefyd yn werth nodi bod yr astudiaeth drawstoriadol gan Dow E, et al. (2023) wedi'i chyhoeddi ar medRxiv, sef gweinydd cynargraffu, ac felly nad yw wedi cael ei hadolygu gan gymheiriaid.

Asesodd Toy B, et al. (2016) a Lee J, et al. (2019) gywirdeb diagnostig camerâu ffwndws anfydriatig, ond roedd gan y ddau gyfyngiadau nodedig. Defnyddiodd Toy B, et al. (2016) ddyluniad carfan ôl-syllol gyda sampl a ddisgrifiwyd yn wael ac sy'n debygol o fod yn anghynrychioliadol, meini prawf dethol aneglur, a throthwyon gwahanol i raddio retinopathi diabetig rhwng y profion mynegai a chyfeirio. Ni adroddwyd ar weithdrefnau cuddio a manylion graddwyr, ac mae dethol is-set o gleifion yn seiliedig ar statws clefyd mwy difrifol yn codi pryderon ynglŷn â thuedd. Mewn cyferbyniad, defnyddiodd Lee J, et al. (2019) ddyluniad cymharol trawstoriadol a detholodd gyfranogwyr i sicrhau dosbarthiad cytbwys ar draws graddau retinopathi diabetig, nad yw'n adlewyrchu poblogaethau sgrinio go iawn, o bosibl. Er yr aseswyd y ddau brawf gan ddefnyddio meini prawf dosbarthu safonol, nodwyd bod gan y safon gyfeirio (offthalmosgopeg) a ddefnyddiwyd gan Lee J, et al. (2019) lai o sensitifrwydd o gymharu â'r safon euraid, ac y gallai'r cyfnod rhwng profion, sef hyd at chwe mis o bosibl, fod wedi effeithio ar gywirdeb diagnostig o ganlyniad i gynnydd clefyd.

### 4.3.3 Canfyddiadau

**Canran y delweddau na ellid eu graddio:**

Roedd wyth o'r naw astudiaeth a amlygwyd yn cynnwys gwybodaeth am ganran y delweddau a

gymerwyd heb fydriasis a ddsbarthwyd yn rhai 'na ellid eu graddio', 'annarllenadwy' neu o ansawdd annigonol i asesu statws retinopathi diabetig.

Cyfrifodd chwech o'r rhain (Banaee T, et al. 2017; Dow E, et al. 2023; Lee J, et al. 2019; O'Halloran R, et al. 2018; Rosses A, et al. 2017; Szabó D, et al. 2015) ganran y delweddau na ellid eu graddio ar draws yr holl gyfranogwyr y tynnwyd delweddau ohonynt heb fydriasis (rhoddodd un [Banaee T, et al. 2017] ddwy ganran oherwydd graddiwyd delweddau'n annibynnol gan ddau raddiwr). **Y ganran ganolrifol ar draws y chwe astudiaeth oedd 13.8% (Amrediad 9.4% i 50.3%).**

O'r tair astudiaeth sy'n weddill, adroddodd un (Toy B, et al. 2016) ar ganran y delweddau na ellid eu graddio o is-set o gyfanswm cyfranogwyr yr astudiaeth yn unig. Adroddwyd bod 13% o'r delweddau o is-set o 856 (12%) o gyfanswm y cleifion wedi'u graddio'n annarllenadwy.

Roedd un astudiaeth arall yn astudiaeth rheoli achosion (Rico-Sergado L, et al. 2016) a oedd yn cynnwys 211 o ddelweddau na ellid eu graddio fel achosion, a gyfatebwyd â 211 o ddelweddau y gellid eu graddio fel rheolyddion, ond crybwyllodd na ellid eu graddio 10.25% o'r llygaid cychwynnol a adolygwyd i amlygu 'achosion'.

Yn yr astudiaeth olaf a oedd yn bodloni ein meini prawf cynnwys (Porta M, et al. 2017), ni ellid eu graddio 3,447 o 22,466 (15.34%) o ddelweddau. Fodd bynnag, tynnwyd delweddau o rai cyfranogwyr gan ddefnyddio mydriasis, ac nid oedd y dadansoddiad o'r delweddau na ellid eu graddio yn nodi faint oedd yn berthnasol i gyfranogwyr a oedd wedi cael diferion mydriatig neu beidio.

Roedd dwy o'r naw astudiaeth (Banaee T, et al. 2017; Rosses A, et al. 2017) yn cymharu canran y delweddau na ellid eu graddio nad oeddent wedi defnyddio mydriasis â'r rhai a dynnwyd o lygaid wedi'u hymledu'n llawn neu'n rhannol. Cymharodd un astudiaeth cyn ac ar ôl dan reolaeth (Banaee T, et al. 2017) ansawdd ffotograffau ffwmdws cyn ac ar ôl rhoi un diferyn llygad tropicamide mewn cyfranogwyr ag iris tywyll. **Roedd delweddau na ellid eu graddio yn fwy cyffredin o lawer yn y cyflwr anfydriatig (38.1% a 50.3% ar gyfer graddwyr 1 a 2) o gymharu â llygaid wedi'u hymledu'n rhannol (4.6% ac 11.5%) neu wedi'u hymledu'n llawn (15.4% a 10.0%) (P < 0.001 ar gyfer y ddau raddiwr).** Canfu astudiaeth cyn ac ar ôl arall (Rosses A, et al. 2017) a oedd hefyd yn cymharu delweddau mydriatig ac anfydriatig yn yr un cyfranogwyr fod **Mydriasis yn gysylltiedig â delweddau o ansawdd gwell (delweddau na ellid eu graddio: anfydriatig= 14.8%, mydriatig= 8.7%, P=0.008).**

Canfu un astudiaeth cyfres achosion (Porta M, et al. 2017) a ddadansoddodd 22,466 o gyfranogwyr, yr aseswyd 39.1% ohonynt gan ddefnyddio mydriasis, fod **defnyddio mydriasis yn llai tebygol o arwain at gasglu delweddau o ansawdd isel (OR 0.33, 95% CI: 0.30-0.36; P<0.001).**

## Rhesymau dros ddelweddau na ellid eu graddio:

Oedran:

Edrychodd pedair astudiaeth (Dow E, et al. 2023; O'Halloran R, et al. 2018; Porta M, et al. 2017;

Rosses A, et al. 2017) ar yr effaith y gallai oedran ei chael ar ansawdd delweddau anfydriatig wrth sgrinio am retinopathi diabetig. Canfu tair o'r rhain ryw fath o gysylltiad cadarnhaol rhwng henaint a delweddau o ansawdd gwaeth.

Canfu un astudiaeth cyfres achosion a ddadansoddodd 3,477 o ddelweddau na ellid eu graddio (Porta M, et al. 2017), yn gyffredinol, **fod gan oedran hŷn gysylltiad arwyddocaol â delweddau o ansawdd isel yn y rhai heb fydrasis** (OR 1.58, 95% CI: 1.52 – 1.64). Roedd y tebygolrwydd o gael delwedd na ellid ei graddio yn sylweddol uwch ymhlith pobl 40 i 49 oed (OR 3.16, 95% CI: 1.49 – 6.87), 50 i 59 oed (OR 4.01, 95% CI: 1.90 – 8.71), 60 i 69 oed (OR 6.35, 95% CI: 2.98 – 13.54), 70 i 79 oed (OR 11.58, 95% CI: 5.44 – 24.68) a  $\geq 80$  (OR 19.92, 95% CI: 9.22 – 43.02).

Canfu un astudiaeth drawstoriadol o 760 o gleifion (Dow E, et al. 2023) **fod delweddau na ellid eu graddio (n=77) yn fwy tebygol o lawer ymhlith cleifion hŷn** (oedran canolrifol: 68.1 oed ar gyfer delweddau na ellid eu graddio o gymharu â 58.5 oed ar gyfer delweddau y gellid eu graddio;  $p < 0.0001$ ).

Canfu un astudiaeth cyn ac ar ôl o 219 o gleifion (Rosses A, et al. 2017), a ddadansoddodd ffactorau sy'n gysylltiedig â darllenadwyedd delweddau, **fod gan gleifion â delweddau na ellid eu darllen oedran canolrifol o 72.5 oed ( $\pm 9.8$  mlynedd) tra bod gan y rhai hynny â delweddau darllenadwy neu amheus oedran canolrifol is (62.6 a 64.3 oed, yn ôl eu trefn)**. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oedd y canfyddiad hwn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd hyn ar draws amodau mydriatig ac anfydriatig. Cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad haenedig yn ôl oedran hefyd, gan archwilio a oedd mydriasis yn gysylltiedig â gwelliant mewn darllenadwyedd delweddau mewn pobl iau na 65 oed (89 o gleifion) neu 65 oed a hŷn (94 o gleifion). **Canfuwyd cysylltiad arwyddocaol rhwng mydriasis ffarmacolegol a gwelliant mewn darllenadwyedd delweddau yn y dadansoddiad o'r grŵp oedran 65 oed a hŷn yn unig** ( $p = 0.008$ ).

Adroddodd yr astudiaeth gymharol ôl-syllol derfynol (O'Halloran R, et al. 2018), a oedd yn cymharu delweddau a dynnwyd gan gamera anfydriatig safonol (camera rheoli) â delweddau a dynnwyd gan gamera anfydriatig a sgan OCT (camera ymyrraeth), nad oedd cysylltiad arwyddocaol rhwng ansawdd ffotograffau ac oedran. Ni adroddwyd ar ddadansoddiad ystadegol yn y papur, ac nid oedd yn glir p'un a oedd y datganiad hwn yn ymwneud â'r camera OCT, y camera anfydriatig rheoli, neu'r ddau.

Nodweddion llygaid/gweledol:

Archwiliodd pump o'r astudiaethau a gynhwyswyd effaith nodweddion gweledol neu nodweddion llygaid ar ansawdd delweddau neu'r gallu i'w graddio ar gyfer sgrinio retinopathi diabetig (Lee J, et al. 2019; O'Halloran R, et al. 2018; Rico-Sergado L, et al. 2016; Szabo D, et al. 2015; Toy B, et al. 2016). Fodd bynnag, ni chynhaliodd yr holl astudiaethau hyn ddadansoddiad llawn.

Cynhaliodd Rico-Sergado L, et al. (2016) y dadansoddiad mwyaf cynhwysfawr gan archwilio nodweddion gweledol neu nodweddion llygaid. Astudiaeth rheoli achosion oedd hon yn gwerthuso effaith llai o graffter golwg ar ansawdd y delweddau a gafwyd gan ffotograffiaeth retinol anfydriatig

mewn pobl ddiabetig. Archwiliodd yr astudiaeth y cysylltiad rhwng amlder sganiau na ellid eu graddio a sawl nodwedd weledol, gan gynnwys craffter golwg wedi'i gywiro, cywerthedd sfferig, astigmatedd, a statws cataract, ynghyd â rhai nodweddion clinigol a drafodir yn yr adran o'r adolygiad hwn ar ffactorau clinigol. Cynhaliodd yr awduron ddadansoddiad amlamrywedd a chanfuont fod gan y canlynol gysylltiad cryf â thebygolrwydd uwch o ddelweddau na ellid eu graddio:

- Craffter golwg pell wedi'i gywiro sy'n waeth na 20/40 (OR 5.23, 95% CI: 2.82 i 9.71;  $p < 0.0001$ )
- Cywerthedd sfferig uchel (cyfeiliornad plygiant sy'n waeth na -6.0 D SE neu +5.0 D SE) (OR 13.21, 95% CI: 2.61 i 66.77;  $p = 0.002$ )
- Cataract gradd 2+, o gymharu â phobl heb gataract (OR 3.36; 95% CI: 1.42-7.95,  $P = 0.006$ ).

Canfu'r awduron **nad oedd tystiolaeth o gysylltiad rhwng astigmatedd uchel a sganiau na ellid eu graddio** yn y dadansoddiad amlamrywedd.

Canfu dadansoddiad o 45 o gyfranogwyr a gynhaliwyd yn astudiaeth O'Halloran R, et al. (2018) gysylltiad arwyddocaol rhwng ansawdd ffotograffau ac amhariad ar y golwg (craffter golwg  $< 6/12$ ). Canfuont fod ffotograffau ffwndws digonol yn llai cyffredin pan oedd amhariad ar y golwg yn bresennol (51.1% o gymharu ag 80.6%, OR: 0.25, 95% CI: 0.13 i 0.51,  $P < 0.05$ ). A bod pobl dros 55 oed yn fwy tebygol o lawer o fod ag amhariad ar y golwg na phobl iau na 55 oed (29% o gymharu â 13.9%, OR: 2.53, 95% CI: 1.26 i 5.08;  $P < 0.05$ ). Fodd bynnag, astudiaeth led-arbrofol oedd hon a oedd yn cymharu effeithiolrwydd OCT gan ddefnyddio camera ffwndws â defnyddio camera ffwndws anfydriatig yn unig, ac nid yw'n glir a yw'r dadansoddiad uchod o amhariad ar y golwg yn cynnwys cyfranogwyr o'r grŵp ymyrraeth, y grŵp rheoli neu'r ddau. Fodd bynnag, mae'r awduron yn adrodd nad oedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn amhariad ar y golwg rhwng y ddau grŵp (22.9% o gymharu â 19.0%, OR: 1.27, 95% CI: 0.63 i 2.54,  $P < 0.05$ ).

Adroddodd Lee J, et al. (2019) fod ffotograffau na ellid eu graddio yn deillio'n bennaf o ddiffyg ymledu canhwylol neu anhryloywder yn y cyfryngau. Fodd bynnag, ni adroddwyd ar ddadansoddiad ystadegol ynglŷn â hyn yn y papur.

Adroddodd dwy o'r astudiaethau (Szabo D, et al. 2015; Toy B, et al. 2016) ar gyfraddau delweddau na ellid eu graddio, gan ddisgrifio'r nodweddion gweledol sy'n gyfrifol amdanynt. Adroddodd Szabo D, et al (2015) fod 10.1% o'r ffotograffau na ellid eu graddio yn yr astudiaeth yn deillio o gataractau, kannwyll llygad fach neu anhryloywder gwydrog. Aeth Toy B, et al. (2016) ychydig ymhellach, gan roi canrannau ar gyfer pob rheswm. Pan ellid canfod achos penodol dros y llun anfydriatig annarllenadwy, roedd 53% oherwydd bod cataract yn y llygaid, roedd 18% oherwydd problemau plygiant â'r llygaid, roedd 11% oherwydd glawcoma, roedd 6% oherwydd retinopathi diabetig amlhaol ac roedd 6% oherwydd retinopathi.

Rhywedd:

Archwiliodd dwy astudiaeth b'un a allai rhywedd fod yn gysylltiedig â delweddau anfydriatig o ansawdd gwael mewn sgrinio retinopathi diabetig. Roedd eu canfyddiadau'n gymysg. Canfu un astudiaeth gymharol ôl-syllol (O'Halloran R, et al. 2018) nad oedd cysylltiad arwyddocaol rhwng ansawdd ffotograffau a rhywedd (ni adroddwyd ystadegau). Fodd bynnag, canfu astudiaeth cyfres achosion a ddadansoddodd 3,447 o ddelweddau na ellid eu graddio (Porta M, et al. 2017) **fod cysylltiad cryf rhwng cleifion gwrywaidd heb fydrisis a nifer fwy o ddelweddau o ansawdd isel** (OR 1.21, 95% CI: 1.10 i 1.34;  $p < 0.001$ ).

Ethnigrwydd:

Dim ond un astudiaeth drawstoriadol a archwiliodd ethnigrwydd a'i gysylltiad posibl â delweddau retinopathi diabetig anfydriatig na ellid ei raddio. Canfu Dow E, et al. (2023) fod **cleifion sy'n hunanadrodd eu bod yn perthyn i grŵp lleiafrif ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) hefyd yn fwy tebygol o gael delweddau anfydriatig na ellid eu graddio (gwyn 5.5%, lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) 13.3%. Chi-sgwâr 7.5107;  $p < 0.006$ )**. Yn ogystal, maen nhw'n adrodd na ellid esbonio'r duedd hon gan wahaniaethau mewn oedran gan fod cyfranogwyr ethnig leiafrifol (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) yr astudiaeth ddeng mlynedd yn iau na'u cymheiriaid gwyn ar gyfartaledd (76.9 oed ar gyfer cyfranogwyr gwyn o gymharu â 66.1 oed ar gyfer cyfranogwyr lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn);  $p < 0.002$ ).

Ffactorau clinigol eraill:

Edrychodd tair astudiaeth ar ffactorau clinigol amrywiol a'u cysylltiad ag ansawdd delweddau mewn sgrinio retinopathi diabetig (Rico-Sergado L, et al. 2016; Rosses A, et al. 2017; Porta M, et al. 2017). Fodd bynnag, roedd lefel y manylion a'r dadansoddiad ar draws yr astudiaethau hyn yn amrywio. Adroddodd Rosses A, et al. (2017) nad oedd ffactorau fel hyd diabetes, presenoldeb gorbwysedd a phresenoldeb clefyd yr arenau yn dylanwadu ar ddarllenadwyedd ffotograffau ffwndws, ond nid oeddent yn cynnwys dadansoddiad ystadegol.

Canfu astudiaeth cyfres achosion (Porta M, et al. 2017) a werthusodd ddefnydd o sgrinio retinol telefeddygaeth yn yr Eidal, ac a archwiliodd ffactorau sy'n gysylltiedig â chasglu ffotograffau o ansawdd isel, fod gan **ysmygu gysylltiad cryf â delweddau o ansawdd is (OR 1.18, 95% CI: 1.04 i 1.35,  $P < 0.012$ )**, ond nad oedd y cysylltiad rhwng gorbwysedd a delweddau o ansawdd isel yn arwyddocaol (OR 0.97, 95% CI: 0.84 i 1.12;  $p = 0.671$ ).

Archwiliodd yr astudiaeth olaf, a oedd hefyd yn astudiaeth cyfres achosion (Rico-Sergado L, et al. 2016), y cysylltiad rhwng amllder sganiau na ellid eu graddio ac ystod o nodweddion gweledol a chlinigol. Canfu dadansoddiad un-newidyn yr awduron **gysylltiad ystadegol arwyddocaol rhwng cyfranogwyr â retinopathi diabetig anamlhaol cymedrol a sganiau na ellid eu graddio**, gyda thebygolrwydd sgan na ellid ei raddio mewn pobl sydd â retinopathi diabetig anamlhaol cymedrol o gymharu â dim retinopathi diabetig yn 3.37 (95% CI: 1.47 i 7.70;  $p = 0.004$ ). Fodd bynnag, ni chanfuwyd

cysylltiadau arwyddocaol rhwng cyfranogwyr â retinopathi diabetig anamlhaol ysgafn, anamlhaol difrifol, nac anmlhaol a delweddau na ellid eu graddio. Yn yr un modd, **ni chanfuwyd cysylltiadau ystadegol arwyddocaol rhwng hyd diabetes a delweddau na ellid eu graddio** (10-19 mlynedd o gymharu â 0-9 mlynedd:  $p=0.773$ , 20 mlynedd neu fwy o gymharu â 0-9 mlynedd:  $p=0.080$ ).

Cyd-destun sgrinio a ffactorau gweithredol:

Roedd dwy astudiaeth yn cynnwys gwybodaeth am y cyd-destun sgrinio a ffactorau gweithredol a ph'un a allai'r rhain effeithio ar ansawdd delweddau wrth sgrinio am retinopathi diabetig. Canfu'r astudiaeth gymharol ôl-syllol gan O'Halloran R, et al. (2018), a oedd yn ceisio gwerthuso defnyddio OCT gyda ffotograffiaeth ffwndws o gymharu â ffotograffiaeth anfydriatig yn unig, ac a gynhaliwyd mewn un clinig trefol ac un clinig gwledig, **nad oedd cysylltiad arwyddocaol rhwng ansawdd ffotograffau a'r safle sgrinio (ni adroddwyd ystadegau)**.

Fodd bynnag, canfu un astudiaeth cyfres achosion (Porta M, et al. 2017), a gynhaliwyd mewn 33 o glinigau cleifion allanol diabetig yn yr Eidal, fod **cyfradd uwch o brosesu cleifion yn y clinig yn gysylltiedig â gostyngiad sylweddol mewn delweddau na ellid eu graddio ymhlith cleifion heb fydriasis (OR 0.96, 95% CI: 0.94 i 0.97;  $p<0.001$ )**.

## 5. Trafodaeth

### 5.1. Crynodeb o'r dystiolaeth

Mae'r adolygiad cwmpasu hwn yn cynnwys cyfanswm o 15 o astudiaethau, yr oedd wyth ohonynt yn bodloni'r meini prawf cynnwys ar gyfer cwestiwn un a naw ohonynt yn bodloni'r meini prawf cynnwys ar gyfer cwestiwn dau.

At ei gilydd, mae canfyddiadau'r astudiaethau a oedd yn bodloni ein meini prawf cynnwys ar gyfer cwestiwn un ( $n=8$ ) yn awgrymu bod cywirdeb diagnostig camerâu ffwndws  $45^\circ$  anfydriatig yn amrywio, ac nad oedd y rhan fwyaf o astudiaethau ( $n=7$ ) yn gallu cyflawni gwerthoedd trothwy Cymdeithas Ddiabetig Prydain ar gyfer sensitifrwydd a phenodolrwydd. Mae gwahaniaethau o ran modelau camerâu, protocolau delweddu (e.e. nifer y delweddau a'r math o ddelweddau) a safonau cyfeirio a ddefnyddir ar draws yr astudiaethau yn cyflwyno heterogenedd sylweddol, sy'n cyfyngu ar y gallu i lunio casgliadau y gellir eu cyffredinoli y tu hwnt i ganlyniadau astudiaethau unigol. Yn nodedig, nid oedd yr un o'r astudiaethau wedi gwerthuso'r camera penodol sydd o ddiddordeb (Topcon NW500) a brynwyd i'w ddefnyddio yng Nghymru, sy'n lleihau perthnasedd y canfyddiadau ymhellach i ymarfer cyfredol. Felly, prin yw'r dystiolaeth o gywirdeb diagnostig Topcon NW500 wrth ei ddefnyddio heb ymledu kannwyll y llygad yn ffarmacolegol, sy'n cyfiawnhau'r angen am werthusiad

lleol cynhwysfawr ymhellach.

Mae arweiniad Cymdeithas Ddiabetig Prydain yn cynnig y dylai camerâu mewn rhaglenni sgrinio a ddefnyddir ar gyfer canfod retinopathi diabetig gyflawni gwerthoedd sensitifrwydd a phenodolrwydd o  $\geq 80\%$  a  $\geq 95\%$ , yn ôl eu trefn, ynghyd â chyfradd methiant technegol o lai na 5% (Cymdeithas Ddiabetig Prydain, 1997). Dim ond un brif astudiaeth a gynhwyswyd yn ein hadolygiad (Toy B, et al. 2016) a gyrhaeddodd y trothwy hwn ar gyfer sensitifrwydd a phenodolrwydd. Astudiaeth garfan hydredol oedd hon a oedd yn ceisio cymharu sgrinio ffotograffiaeth ffwndws anfydriatig ar gyfer retinopathi diabetig ag archwiliad ffwndws wedi'i ymledu'n glinigol mewn lleoliad rhwyd ddiogelwch yn Unol Daleithiau America. Profwyd cywirdeb diagnostig camera Nidek NM-1000, trwy gymryd un ddelwedd ffwndws maes gweld  $45^\circ$  o ganol y macwla, a'i chymharu â gradd glinigol Graddfa Difrifoldeb Clefyd Retinopathi Diabetig Clinigol Rhyngwladol (ICDR) o archwiliad ffwndws wedi'i ymledu, mewn is-set o 1,521 o gleifion o blith 6,911 a gymerodd ran yn yr astudiaeth garfan yn gyffredinol.

Er na adroddwyd y gyfradd methiant technegol ar gyfer yr is-set hon, sy'n golygu na allwn fod yn sicr p'un a oedd yn llai na 5%, nodwyd mai'r gyfradd delweddau na ellid eu graddio a adroddwyd mewn is-set wahanol o gleifion o'r astudiaeth hon oedd 13%. Fodd bynnag, mae'r awduron yn crybwyll yn yr is-set o 1,521 o gleifion, pan gynhwyswyd ffotograffau na ellid eu darllen yn y dadansoddiad o gywirdeb diagnostig, bod sensitifrwydd wedi gostwng i 93% a bod penodolrwydd wedi gostwng i 75%, sy'n is nag argymhellion Cymdeithas Ddiabetig Prydain. Ond mae dibynadwyedd y canfyddiadau hyn wedi'i gyfyngu gan sawl ffynhonnell duedd bosibl, gan gynnwys gwahanol systemau graddio retinopathi diabetig a ddefnyddiwyd rhwng profion, meini prawf dethol aneglur, diffyg cuddio, a defnyddio is-set anghynrychioliadol o gleifion a chanddynt glefyd mwy difrifol o bosibl, a allai fod wedi chwyddo'r amcangyfrifon perfformiad diagnostig.

Cwblhaodd yr adolygiad gan Hu J, et al. (2019) ddadansoddiad is-grŵp i gyfrifo sensitifrwydd a phenodolrwydd yn ôl y safon gyfeirio a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau a gynhwyswyd ganddynt. Canfuont wahaniaethau mewn sensitifrwydd a phenodolrwydd ffotograffiaeth ffwndws anfydriatig 1-maes o'i chymharu â safon gyfeirio ffotograffiaeth saith maes safonol (7SF) a biomicrosgopeg lamp slit. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r safon gyfeirio a ddewisir ddylanwadu ar ddehongli cywirdeb diagnostig delweddau ffotograffiaeth ffwndws, felly **dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r safon gyfeirio mewn unrhyw werthusiad arfaethedig o'r Topcon NW500 yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n glinigol ystyrion i gyd-destun Cymru.**

Er mwyn helpu i lywio'r gwerthusiad arfaethedig ymhellach, ceisiodd yr adolygiad cwmpasu hwn hefyd amlygu ffactorau sy'n gysylltiedig â delweddau retinol anfydriatig na ellid eu graddio neu o ansawdd gwael yn y rhai sy'n destun sgrinio retinopathi diabetig. Nifer gyfyngedig o astudiaethau ( $n=9$ ) a fodlonodd y meini prawf cynnwys ar gyfer y cwestiwn hwn. Roeddent yn amrywio'n fawr o ran lefel y manylion a dadansoddi, gyda 10 canfyddiad a adroddwyd ar draws saith astudiaeth yn darparu dim dadansoddiad neu ddadansoddiad cyfyngedig i ategu eu canfyddiadau.

Roedd y ffactorau a amlygwyd ar draws yr astudiaethau a gynhwyswyd a ddangosodd gysylltiad ystadegol arwyddocaol â delweddau o ansawdd gwaeth neu debygolrwydd uwch o ddelweddau na ellid eu graddio fel a ganlyn:

- Henaint (n = 2 astudiaeth): tebygolrwydd uwch o ddelweddau na ellid eu graddio mewn sgrinio anfydriatig (OR arwyddocaol yn amrywio o 3.16 [95% CI: 1.49 – 6.87] mewn pobl 40–49 oed sy'n cynyddu bob deng mlynedd i 19.92 [95% CI: 9.22 – 43.02] mewn pobl ≥80 oed). Adroddodd un oedran canolrifol uwch mewn cleifion â delweddau na ellid eu graddio o gymharu â'r rhai â delweddau y gellid eu graddio (68.1 o gymharu â 58.5 oed; p<0.0001).
- Cywerthedd Sfferig Uchel (n = 1 astudiaeth): OR 13.21, 95% CI: 2.61 i 66.77; p=0.002. Craffter golwg pell wedi'i gywiro sy'n waeth na 20/40 (n = 1 astudiaeth): OR 5.23, 95% CI: 2.82 i 9.71; p<0.0001.
- Cataract (n = 1 astudiaeth): OR 3.36; 95% CI: 1.42-7.95, P=0.006.
- Gwrywod (n = 1 astudiaeth): OR 1.21, 95% CI: 1.10 i 1.34; p<0.001.
- Lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) (n = 1 astudiaeth): delweddau na ellid eu graddio: gwyn 5.5%, lleiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) 13.3%. Chi-sgwâr 7.5107; p<0.006.
- Ysmygu (n = 1 astudiaeth): OR 1.18, 95% CI: 1.04 i 1.35, p<0.012

Roedd cyfradd uwch o brosesu cleifion mewn safleoedd sgrinio yn gysylltiedig â gostyngiad sylweddol mewn delweddau na ellid eu graddio mewn cleifion heb fydriasis (OR 0.96, 95% CI: 0.94 i 0.97; p<0.001).

Fodd bynnag, mae'r uchod yn dangos achosion lle y canfuwyd cysylltiad arwyddocaol yn unig. **Archwiliwyd llawer o'r nodweddion hyn mewn nifer fach o astudiaethau yn unig, ac roedd y canfyddiadau'n gymysg ar draws yr astudiaethau a oedd wedi'u harchwilio.** Er hynny, fe allai fod yn ddefnyddiol i'r gwerthusiad arfaethedig dilynol o'r camera Topcon NW500 yng Nghymru gynnwys sampl gynrychioliadol o bobl sydd â'r nodweddion uchod, er mwyn helpu i bennu a yw unrhyw un o'r cysylltiadau hyn yn bresennol yn un o boblogaethau Cymru hefyd, gan felly helpu i lywio ymhellach b'un a ddylai'r gwasanaeth barhau i gynnig mydriasis i unrhyw grwpiau diffiniedig penodol.

Oedran oedd y nodwedd a archwiliwyd amlaf ar draws yr astudiaethau a gynhwyswyd yn ein hadolygiad. Canfuom rywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai delweddu retinopathi diabetig anfydriatig fod yn fwy tebygol o gynhyrchu delweddau o ansawdd gwaeth neu na ellid eu graddio mewn grwpiau oedran hŷn, a thystiolaeth astudiaeth unigol sy'n dangos tebygolrwydd uwch o gael delwedd na ellid ei graddio ymhlith pobl hŷn. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil gynharach nad oedd yn bodloni ein meini prawf ar gyfer ei chynnwys, sy'n awgrymu y gallai oedran fod yn ffactor perthnasol sy'n dylanwadu ar ansawdd delweddau, er gwaethaf gwelliannau posibl i dechnoleg camerâu ffwdws 45° anfydriatig. Er enghraifft, ymchwiliodd astudiaeth gan Scanlon P, et

al. yn 2005 i effaith oedran, hyd diabetes, presenoldeb cataract, a maint cannyll y llygad ar ansawdd delweddau mewn sgrinio retinopathi diabetig anfydriatig a mydriatig. Adroddodd yr astudiaeth gyfradd delweddau na ellid eu graddio o 19.7% ar gyfer ffotograffiaeth anfydriatig. Wrth ddadansoddi yn ôl grŵp oedran, dirywiodd ansawdd delweddau wrth i oedran gynyddu: roedd y gyfradd delweddau na ellid eu graddio yn 11.0% ar gyfer pobl 50-59 oed, gan gynyddu i 16.5% ar gyfer pobl 60-69 oed, 26.2% ar gyfer pobl 70-79 oed, 40.1% ar gyfer pobl 80-89 oed, a 68.9% ar gyfer pobl 90 oed a hŷn.

Un canfyddiad nodedig yw mai **y chydig iawn o'r astudiaethau a amlygwyd gennym a archwiliodd b'un a oedd cysylltiadau rhwng lleoliadau sgrinio neu ffactorau/nodweddion gweithredol ac ansawdd delweddau anfydriatig ar gyfer sgrinio retinopathi diabetig.** Yn aml, roedd diffygion wrth adrodd am nodweddion gweithredol hefyd, er enghraifft, dim ond dwy astudiaeth (Banaee T, et al. 2017; Rosses A, et al. 2017) a grybwyllodd unrhyw amodau cipio delwedd, fel p'un a dynnwyd y delweddau mewn golau naturiol neu ystafell dywyll. Fe allai amodau cipio effeithio ar ansawdd delweddau, o bosibl. Mae Banaee T et al. (2017) yn dweud nad golau ystafell arferol yw'r amodau gorau ar gyfer ffotograffiaeth ffwdws anfydriatig, ac y gallai ystafell dywyll gynyddu maint cannyll y llygad i'r eithaf a gwella ansawdd delweddau. Fodd bynnag, ni amlygwyd unrhyw astudiaethau a brofodd y ddamcaniaeth hon yn ein poblogaeth o ddiddordeb. Mae hyn yn fwlch posibl yn y dystiolaeth y gellid ei archwilio gydag ymchwil a gwerthuso pellach.

Wrth sgrinio astudiaethau i'w cynnwys yn yr adolygiad hwn, canfuom ymchwil a oedd yn archwilio mathau eraill o gamerâu anfydriatig nad oeddent yn bodloni ein meini prawf cynnwys, gan eu bod yn llai tebyg i'r rhai a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Er hynny, fe allai astudiaethau o fathau eraill o gamerâu, fel camerâu anfydriatig llaw, camerâu anfydriatig maes eang, neu domograffeg cydlyniant optegol, hefyd fod wedi archwilio'r rhesymau dros ddelweddau na ellid eu graddio, ac mae'n bosibl bod grwpiau eraill wedi'u hamlygu yn y rhain y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys yn y gwerthusiad yng Nghymru hefyd. Fodd bynnag, o ystyried ein graddfeydd amser cyfyngedig a'r adnoddau sydd ar gael, penderfynwyd cadw at fathau o gamerâu sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yn y Deyrnas Unedig ac sydd debycaf i'r math a brynwyd i'w ddefnyddio a'i werthuso yng Nghymru, er mwyn ceisio gwneud ein canfyddiadau mor berthnasol â phosibl.

## 5.2. Cryfderau a chyfyngiadau

Defnyddiodd yr adolygiad cwmpasu hwn ddulliau adolygu systematig cryno i sicrhau dibynadwyedd a pherthnasedd o fewn y graddfeydd amser a oedd yn ofynnol ar gyfer y prosiect. Er y gwnaed pob ymdrech i gynnwys yr holl gyhoeddiadau perthnasol a lleihau risg tuedd yn ein proses adolygu, mae'n bosibl y methwyd cyhoeddiadau cymwys ychwanegol.

Mae'r adolygiad yn cyfuno tystiolaeth ar gyfer dau gwestiwn a flaenoriaethwyd oherwydd eu perthnasedd i'r anghenion penderfynu presennol. Mae cwmpas a mynegiant penodol y cwestiynau'n gwneud y canfyddiadau'n fwy defnyddiol byth i lywio'r gwerthusiad o weithredu camerâu ffwdws anfydriatig Topcon NW500 mewn llwybrau sgrinio retinopathi diabetig ledled Cymru.

Amlygwyd sawl cyfyngiad yn ymwneud â'r sylfaen dystiolaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad. Yn gyntaf, ni amlygwyd unrhyw astudiaethau a ddefnyddiodd Topcon NW500 ac roedd y camerâu anfydriatig a'r dulliau delweddu (e.e., meysydd ffotograffig, lleoliad y ddelwedd, lleoliad cipio) a ddefnyddiwyd yn yr astudiaethau a gynhwyswyd yn amrywio'n fawr, sy'n effeithio ar y gallu i gymharu'r canfyddiadau ar draws astudiaethau. At hynny, ni amlygwyd unrhyw astudiaethau perthnasol o Gymru, sy'n cyfyngu ar y gallu i gymharu'r canfyddiadau â chyd-destun Cymru.

Un o amcanion allweddol yr adolygiad cwmpasu oedd amlygu tystiolaeth sy'n asesu ffactorau sy'n gysylltiedig â delweddau retinol anfydriatig aflwyddiannus neu o ansawdd gwael mewn pobl sy'n destun sgrinio retinopathi diabetig. Roedd y dystiolaeth yn gyfyngedig, a dim ond dwy astudiaeth a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ymchwilio i effaith ffactor penodol (llai o graffter golwg: n=1, ac iris tywyll: n=1) ar ansawdd delweddau (Banaee T, et al. 2017; Rico-Sergado L, et al. 2016). Yn ogystal, roedd yr holl astudiaethau a archwiliodd nodweddion sy'n gysylltiedig â delweddau na ellid eu graddio yn amrywio'n fawr o ran dyluniad astudiaeth, nodau, dulliau dadansoddol, ac adrodd, sy'n debygol o ddylanwadu ar gysondeb y canfyddiadau a'r gallu i'w cymharu.

Roedd ansawdd astudiaethau'n gyfyngedig yn gyffredinol ar draws y sylfaen dystiolaeth, ac roedd gwendidau methodolegol yn gyffredin ymhlith prif astudiaethau ac adolygiadau systematig. Er bod rhai astudiaethau'n dangos cryfderau dylunio ac adrodd, tanseiliwyd y rhain yn aml gan faterion fel tryloywder gwael, gweithdrefnau cuddio aneglur, a gweithdrefnau samplu diffygiol. Mewn llawer o achosion, roedd prif bwyslais yr astudiaethau'n wahanol i'r adolygiad hwn, a oedd yn effeithio'n aml ar berthnasedd a chyflawnder y canlyniadau a adroddwyd, gan olygu nad oedd sawl canfyddiad a adroddwyd ar draws nifer o astudiaethau wedi cael eu dadansoddi'n ddigonol er mwyn eu dehongli'n briodol. At ei gilydd, mae pryderon ansawdd ar draws yr astudiaethau a gynhwyswyd yn cyflwyno cryn ansicrwydd ac yn cyfyngu ar gryfder y dystiolaeth a'r gallu i'w chyffredinoli i ymarfer sgrinio presennol.

## 6. Casgliadau

